

# CEINEWYDD

## Arfarniad Ardal Gadwraeth

Tachwedd 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

**Tabl Cynnwys**

**ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH CEINEWYDD**

1. CYFLWYNIAD....3
2 CYFLWYNIAD I ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH CEINEWYDD....7
3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU....9
4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG....12
5. CYD-DESTUN FFISEGOL ....17
6. DATBLYGIAD HANESYDDOL ....18
7. DADANSODDIAD GOFODOL....26
8. CYMERIAD PENSAERNIOL....29
9. ASEDAU DYNONEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG....35
10. CYMDEITHASAU HANESYDDOL....38
11. HANESION CUDD....39
12. BIOAMRYWIAETH ....40
13. MATERION—DADANSODDIAD CGCB....45

**CYNLLUN RHEOLI ARDAL GADWRAETH CEINEWYDD**

1. CYFLWYNIAD....2
2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4....2
3. ADOLYGIAD FFIN....7
4. YR ANGEN AN GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS....8
5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL....12
6. YSTYRIED GORFODI....14
7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO A GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL....15
8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI....19
9. ADEILADAU MEWN PERYGL ....21
10 COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED....22
11. MONITRO AC ADOLYGU ....24
ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU....26
ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH....29

DRAFT

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.

1.1.2 Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

DRAFT



*Ffigur 1 Golygfa o'r adeiladau hanesyddol ar Heol yr Eglwys*

1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.

1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

DRAFT

1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.

1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi

wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Cardigan
- Lampeter
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

O'r ardaloedd hyn mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae coed mewn ardaloedd cadwraeth hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.



***Ffigur 2 Golygfa o ran ddeheuol Ceinewydd o'r Pier***

DRAFT

## 1.2 Ardaloedd Cadwraeth

1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) ***gadw neu wella*** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru, ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.

1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.

1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

## 1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.

1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.

1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer sawl un o'r ardaloedd cadwraeth.

1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn Adran 4.5. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad

DRAFT

cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).




***Ffigur 3 Mae strydoedd cul a thai teras hanesyddol yn nodweddiadol o Geinewydd***

DRAFT

## 2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH CEINEWYDD

### 2.1 Statws Ardal Gadwraeth


2.1.1 Dynodwyd Ceinewydd yn ardal gadwraeth yn 1969. Ni fu unrhyw newidiadau i'w ffin, a ddangosir dros y dudalen. Yn anarferol, mae tri adeilad unigol nad ydynt o fewn y brif ardal gadwraeth hefyd wedi eu cynnwys o fewn y ffin wreiddiol: Eglwys Sant Llwchaiarn, Capel Towyn a Chapel Bethel.

2.1.2 Nid oes Arfarniad Ardal Gadwraeth neu Gynllun Rheoli cyfredol ar gyfer yr ardal gadwraeth.

### 2.2 Lleoliad a Safle

2.2.1 Lleolir Ceinewydd bron yng nghanol Bae Ceredigion, 19 milltir (31 km) i'r de-orllewin o Aberystwyth ac 20 milltir (31km) i'r gogledd-ddwyrain o Aberteifi. Mae'n dref glan môr gyda thraethau tywodlyd cysgodol ac mae'r dref wedi datblygu mewn siâp hanner cylch, mewn terasau yn bennaf ar hyd y llethrau sy'n edrych dros yr harbwr.

***Ffigur 4 Ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth yng Ngheinewydd***



2.2.2 Mae bryniau a thir uwch i'r de a'r gorllewin yn ffurfio ardal gysgodol lle mae'r dref wedi datblygu.

## 2.3 DISGRIFIAD CRYNO

2.3.1 Pentref pysgota bach oedd Ceinewydd gyda dim ond ychydig o fythynnod gwasgaredig wedi'u hamgylchynu gan dir amaethyddol tan ganol y 19eg ganrif. Roedd yn weddol anghysbell ac yn anodd ei chyrraedd ar yr adeg hon. Pasiwyd Deddf Harbwr Ceinewydd yn 1835, a chafodd y pier a'r harbwr eu gwella, gan gynnwys adeiladu pier cerrig. Cynyddodd y diwydiant adeiladu llongau a masnach gan arwain at ddatblygiad y dref. Cymharol fyrhoedlog oedd y diwydiant ac wrth i gysylltiadau trafnidiaeth wella, daeth twristiaeth yn un o brif gynhalwyr economi Ceinewydd ac erys felly heddiw. Mae'r adeiladau cynharaf yn y dref yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif ond mae'r bensaernïaeth yn arddull Sioraidd yn gyffredinol, er yn dyddio'n bennaf o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r adeiladau'n gymedrol o ran maint, y mwyafrif ohonynt yn eiddo preswyl, gyda'r rhai sydd ychydig yn fwy megis hen warysau yn olion y cyfnod morwrol diwydiannol. Nodweddion allweddol Ceinewydd yw ei lleoliad glan môr a'i thraethau godidog a'r rhesi o dai teras sy'n edrych dros y bae. Mae canol y dref yn fach ond yn brysur ac yn llawn bywyd yn ystod misoedd yr haf tra bod y dref gyfan yn llawer mwy tawel ac yn fwy mewnblyg yn ystod misoedd y gaeaf.

# 3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

## 3.1 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i *'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*.

3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau, mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

DRAFT

## 3.2 DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

3.2.1 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') i rym ar 4 Tachwedd 2024 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Diddymodd y ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghymru:

- Deddf Adeiladau a Henebion Hanesyddol 1953
- Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3.2.2 Mae Deddf 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol: roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw: yr adeilad rhestredig; gosodiad yr adeilad; ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.

3.2.3 Mae Deddf 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.




*Ffigur 5 Mae paneli wedi'u paentio a'u fframio o'r tollau harbwr ar Adeilad y Pier o ddiddordeb hanesyddol mawr*

### 3.3 POLISI A CHANLLAWIAU CENEDLAETHOL (MAE DOGFENNAU'N CAEL EU DIWEDDARU'N RHEOLAIDD A DYLID CYFEIRIO AT Y FERSIWN DIWEDDARAF)

3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 12, 2024) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.

3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisïau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.

3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.

3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) *Cadw Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol:

- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
- Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
- Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
- Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
- Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt

3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru,* a *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, ymysg eraill.

3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid

DRAFT

a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

### 3.4 Polisi Cynllunio Lleol

3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd (CDLl2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDLl1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.

3.4.2 Yn CDLl1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.

3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion.

## 4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

### 4.1 CRYNODEB O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

| ARWYDDOCÂD TYSTIOLAETHOL | ARWYDDOCÂD HANESYDDOL | ARWYDDOCÂD ESTHETIG | GWERTHOEDD CYMUNEDOL |
|---|---|---|---|
| CANOLIG | CANOLIG / UCHEL | UCHEL | UCHEL |

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Nid yw gwerth 'uchel' yn golygu na ellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.

DRAFT

- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chrefftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.
- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

## 4.2 Tystiolaethol – Arwyddocâd Canolig

4.2.1 Credir bod gan Geinewydd botensial archeolegol isel ar y tir, fodd bynnag, mae potensial da ar gyfer archeoleg forwrol yn y bae.

DRAFT




*Ffigur 6 Mae warysau a bythynnod bach cerrig yn olion datblygiadau cynharach yng Ngheinewydd*

4.2.2 O fewn ffurf adeiledig y dref mae tystiolaeth sylweddol o hanes Ceinewydd fel pentref pysgota, porthladd adeiladu llongau a phwysigrwydd ei heconomi forwrol.

4.2.3 Oherwydd ei datblygiad hanesyddol cymharol hwyr a datblygiadau modern cyfyngedig, mae Ceinewydd yn cadw tystiolaeth ffisegol ragorol o dwf anheddiad pysgota bach i fod yn dref sefydledig ar ddechrau / canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

4.2.4 O ystyried maint y dref mae tystiolaeth ddogfennol ac archifol dda, yn enwedig oherwydd bod ei phrif gyfnod datblygu yn y gorffennol cymharol fodern.

4.2.5 Mae Ceinewydd yn darparu tystiolaeth sylweddol o ran datblygiad y diwydiant twristiaeth yng Ngorllewin Cymru o ganol y 19eg ganrif ymlaen.

## 4.3 HANESYDDOL – ARWYDDOCÂD CANOLIG / UCHEL

4.3.1 Mae twf a datblygiad y diwydiannau morwrol yng Ngheinewydd, gan gynnwys pysgota, adeiladu llongau, a masnachau cysylltiedig yn rhan hanfodol o hunaniaeth y dref. Maent hefyd yn berthnasol i dwf nifer o drefi a phentrefi eraill ar hyd arfordir gorllewinol Cymru yn y cyfnod hwn.

4.3.2 Mae presenoldeb smyglo yn y 18fed ganrif yn ychwanegu perthnasedd a diddordeb o ran deall datblygiadau hanesyddol cymdeithasol ac economaidd y cyfnod hwn yn y rhan hon o Gymru.

4.3.3 Yn yr un modd â llawer o drefi yng Ngheredigion, mae'r datblygu enfawr a ddigwyddodd yn Oes Fictoria wedi gadael argraff gryf ar ei chymeriad cyffredinol. Mae hefyd yn gymorth i ddeall y newidiadau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd mawr yn y cyfnod hwn.

4.3.4 Mae cysylltiadau Ceinewydd â Diwygiad Cristnogol Cymru 1904-1905 trwy Joseph Jenkins yn darparu tystiolaeth o arferion cymdeithasol, cymunedol a chrefyddol yr ardal yn y cyfnod hwn ac o'r effaith y gall hyd yn oed tref fach ei chael ar ardal dipyn ehangach.

4.3.5 Mae cysylltiadau cryf y dref â Dylan Thomas a'i waith yn rhoi dimensiwn ychwanegol i hanes Ceinewydd – diwylliant Gorllewin Cymru yn y cyfnod hwn ac effeithiau'r rhyfel ar rannau mwy anghysbell y wlad. Mae Thomas hefyd yn rhoi mewnwelediadau allweddol i fywydau ac arferion y bobl oedd yn byw yng Ngheinewydd yn y cyfnod hwn.

## 4.4 ESTHETIG – ARWYDDOCÂD UCHEL

4.4.1 Mae gan Geinewydd arwyddocâd esthetig uchel yn bennaf oherwydd ei lleoliad gwych, clogwyni dramatig, traethau hardd a golygfeydd o'r môr. Mae'n dref glan môr fach Gymreig heb ei difetha i raddau helaeth.

DRAFT

4.4.2 Gyda phensaernïaeth sy'n rheolaidd ond eto'n unigoledig, a phresenoldeb manylion hanesyddol, y defnydd o liw, a golygfeydd byr i ganolig o fewn y dref, a golygfeydd hwy o'r dref o'r gorllewin a'r de, mae Ceinewydd yn lleoliad gweledol ysblennydd sy'n cael ei werthfawrogi naill ai trwy gerdded y strydoedd cul gydag ymdeimlad o ddarganfod a dod o hyd i olygfa neu gasgliad newydd o adeiladau rownd pob cornel, neu trwy werthfawrogi'r rhesi o derasau lliwgar o ymhellach i ffwrdd. Mae'r nifer uchel o adeiladau rhestredig o'i gymharu â maint y dref yn cadarnhau gwerth cenedlaethol ei phensaernïaeth.

4.4.3 Yn yr haf mae Ceinewydd yn llawn bywyd, yn brysur ac yn hwyliog gyda llu o bobl yn mwynhau eu hunain neu'n helpu eraill i fwynhau'r dref. Yn y gaeaf mae'r dref yn fwy tawl ac yn haws ei llywio, gyda mwy o amser a lle i fwynhau ei nodweddion esthetig.




***Ffigur 7 Yn ystod yr haf mae Ceinewydd yn gyrchfan dwristiaeth fywiog***

## 4.5 CYMUNEDOL – ARWYDDOCÂD UCHEL

4.5.1 Mae rhai adeiladau neu wasanaethau cymunedol yn rhan isaf canol y dref, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli yn rhannau uchaf y dref.

4.5.2 Mae cymuned leol gryf ac angerddol yma sy'n gwerthfawrogi ei threftadaeth a'i diwylliant.

4.5.3 Mae lefel uchel o ddiddordeb a mewnbwn adloniant cymunedol yn ogystal â thwristiaeth sy'n helpu i gefnogi'r gymuned.

4.5.4 Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn bwysig iawn gyda chyfartaledd o dros 50% o bobl yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl arolwg Cyngor Sir Ceredigion.

4.5.5 Roedd y digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn ceisio casglu gwybodaeth a barn rhanddeiliaid ar yr ardal gadwraeth. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad ymgynghori cyhoeddus galw heibio a gynhaliwyd yng Ngheinewydd yn ystod mis Medi 2024 ar y cyd â digwyddiad ymgynghori Cynllun Lle Ceinewydd. Rhannwyd copïau o'r Arfarniad a'r Cynllun Rheoli drafft â rhanddeiliaid. Mynychodd tri deg wyth o bobl y sesiwn galw heibio sy'n nifer uchel iawn ar gyfer cymuned fach. Derbyniwyd nifer dda o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i adolygu'r arfarniad. Cofnodwyd y sylwadau canlynol:

- Cysondeb yn bwysig yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud (cynllunio)
- Byddai mwy o orfodi a gorfodi mwy cyson yn ddymunol
- Byddai gwneud canol y dref yn ardal i gerddwyr yn cael ei groesawu
- Gellid gwella'r pier: goleuadau, cynnal a chadw, mynediad i'r anabl
- Gerddi cymunedol a rhandiroedd yn ddymunol
- Syniad ar gyfer amgueddfa a/neu daith hanes – defnydd posibl ar gyfer y Queen's Hotel
- Byddai Cynllun Gwella Treflun yn cael ei groesawu
- Datgysylltiad rhwng y dref uchaf ac isaf – twristiaid a phobl leol
- Diffyg arwyddion – llwybr yr arfordir, amgueddfa, safleoedd o ddiddordeb
- Traeth Dolau heb ei ddefnyddio digon, a gellid gwella mynediad
- Dolau beach is underused and access could be improved

4.5.6 Mae'r tabl canlynol yn nodi barn y gymuned am agweddau gwahanol o'r dref.

| Pwysig Iawn | Pwysig | Ychydig bach yn bwysig |
|---|---|---|
| Pentref pysgota gwreiddiol | Hanes smyglo ac archeolog forwrol | Lleoliad gwledig |
| Hanes Fictoriaidd: hanes morwrol, adeiladu llongau a datblygu | Cysylltiadau â Dylan Thomas | Siopau annibynnol |
| Y pier a’r harbwr | Terasau o dai | Hen warysau hanesyddol |
| Yr iaith Gymraeg | Traethau | Tafarnau |
| | Golygfeydd I mewn ac allan | Strydoedd cul |
| | Manylion pensaerniol | Wynebau strydoedd a phalmentydd |
| | Pobl/ cymuned | Teithiau cychod |
| | Ecoleg/ Bywyd gwyllt | Hwylio a’r RNLI |
| | Tir cyhoeddus, parciau a mannau agored | NQCN - Hwb |
| | Enwau strydoedd a lleoedd | Toiledau Cyhoeddus |

DRAFT

## 5. CYD-DESTUN FFISEGOL

### 5.1 DAEAREG

5.1.1 Mae'r ddaeareg yn cynnwys tywodfeini, cerrig silt a cherrig llaid Ordofigaidd hwyr (Cyfres Ashgill) a Silwraidd cynnar (Cyfres Llanymddyfri). Mae'r tywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd wedi cael eu defnyddio'n helaeth fel ffynhonnell leol o gerrig ar gyfer adeiladu. Mae'r clogwyni yng Ngheinewydd yn datgelu eu haenau daearegol ac yn ffurfio tirwedd arfordirol digysgod ac agored iawn tra'n cysgodi'r anheddiad oddi tano. Mae'r creigiau Silwraidd isaf i'w gweld yn y rhannau o'r clogwyni arfordirol ac mae Grŵp Grutiau Aberystwyth yn amlwg iawn ar y blaendraeth ac yn y clogwyni isel. Mae tirlithriadau, sy'n cynrychioli ansefydlogrwydd llethrau, yn amlwg yn yr ardal ac yn cael eu hachosi gan erydiad môr ar droed y clogwyni.

### 5.2 CYMERIAD TIRWEDD A THOPOGRAFFEG

5.2.1 Mae Ceinewydd wedi'i lleoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 24: Arfordir Ceredigion (Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae'r ardal hon yn cynnwys yr arfordir a thir arfordirol cysylltiedig rhwng Aberteifi yn y de ac ychydig i'r de o Aberystwyth yn y gogledd. Mae'r ardal

DRAFT



*Ffigur 8 Mae'r ardal wedi'i nodweddu gan glogwyni uchel a phenrhynion agored*

hon o bwysigrwydd eithriadol oherwydd ei chynefinoedd morol, rhynglanwol ac arfordirol, ac mae llawer o'r arfordir wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth.

5.2.2 Mae'r ardal wedi'i nodweddu gan glogwyni arfordirol uchel a phenrhynion agored, gyda baeau cysgodol ac aneddiadau arfordirol bach a ddechreuodd fel pentrefi pysgota yn bennaf ac a ddatblygodd i fod yn lleoliadau twristiaeth rhanbarthol pwysig. Mae'r aneddiadau wedi cael eu hehangu'n weledol yn aml trwy ddatblygu safleoedd carafanau arfordirol mawr.

5.2.3 Mae Ceinewydd wedi'i hamgylchynu gan gaeau amaethyddol a llethrau coediog sy'n darparu lleoliad deniadol ar gyfer y dref. Datblygodd y dref ar ffurf teras ar lethrau Bryniau Neuadd a Phenywig. I'r gogledd a'r gorllewin mae'r môr a'r arfordir yn ffurfio ymyl trawiadol i'r anheddiad gyda'r terasau o dai ar y llethrau yn manteisio'n llawn ar y golygfeydd. Mae gan yr ardal rynglanwol wynebau clogwyni dramatig, ogofâu cudd a digonedd o draethau tywodlyd.

5.2.4 Yn y dirwedd amaethyddol rhwng yr aneddiadau ceir ffermydd a phentrefannau gwasgaredig. Mae ffordd yr A487 yn dilyn yr arfordir, ond yn rhedeg ychydig yn fewndirol, gyda ffyrdd llai yn darparu mynediad i'r aneddiadau arfordirol tra bod yr arfordir rhyngddo bron yn amhosib ei gyrraedd mewn car. Mae Llwybr Arfordir Ceredigion (rhan o Lwybr Cenedlaethol Arfordir Cymru) yn darparu mynediad i gerddwyr ac yn adnodd adloniadol pwysig.

## 6. DATBLYGIAD HANESYDDOL


### 6.1 MAPIAU HANESYDDOL

6.1.1 Lluniwyd y map cynharaf y gwyddys amdano sy'n dangos Ceinewydd fel lle ar wahân (neu New Key yn ôl Morris) gan William Morris ac mae'n dyddio o 1801. Fe'i dilynir yn agos gan fap Joseph Singer dyddiedig 1803. Mae'r ddau fap hyn yn dangos harbwr bach gydag ychydig o fythynnod a'r eglwys yn Llanllwchaearn. Dangosir anheddiad ychydig yn fwy yn Llanina. Mae'r ddau fap hyn hefyd yn dangos safle o'r enw 'Pen Y Castill', sydd hefyd yn ymddangos ar fapiau modern. Fel arfer cymerir bod yr enwau lleoedd hyn yn awgrymu presenoldeb safle amddiffynnol o ddyddiad anhysbys yn y gorffennol, ond nid oes unrhyw olion ffisegol wedi'u cofnodi yn y lleoliad hwn.

6.1.2 Mae map o 1810 i'w weld yn llyfr Lewis *'New Quay and Llanarth',* ond yn anffodus ni chyfeirir yn uniongyrchol at ei ffynhonnell. Fodd bynnag, mae'n dangos twf cychwynnol rhai o'r bythynnod cyntaf yn yr hyn y gellid, yn fwy priodol, ei alw'n bentref bach.

DRAFT


6.1.3 Mae Map Degwm 1840 yn dangos twf gwirioneddol cyntaf y dref ac mae'n cynnwys darluniau manwl o'r ffyrdd a'r terasau newydd eu hadeiladu. Mae'r datblygu yn ymestyn ar hyd y draethlin a gellir ei ddisgrifio orau trwy ddarllen hanes Samuel Lewis o 1849 (isod). O ddiddordeb arbennig, mewn perthynas â hanes Ceinewydd, mae'r 'rhafflannau' hir main sydd i'w gweld yn cyfateb i ran o Heol y Dŵr a Park Terrace ar hyn o bryd. Dangosir adeiladau bach ar ochr orllewinol pob un o'r rhafflannau hyn, a allai fod wedi bod yn lle i gadw'r mecanwaith gyrru ar gyfer weindio'r rhaff. Mae'n bosib bod gan y ddau adeilad



DRAFT

***Ffigur 9 Darn o 'Plans of the principal harbours, bays, & roads in St. George's and the Bristol Channels from surveys made under the direction of the Lords of the Admiralty, by the late intelligent and ingenious hydrographer Lewis Morris Esq ... with additional observations from surveys lately made by William Morris' (1801)***

***Atgynhyrchwyd o adnoddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru – The National Library of Wales Cyf: AB 1037***




***Ffigur 10 Mae'r map hwn a dynnwyd â llaw o Geinewydd yn 1810 I'w weld yn llyfr Lewis, 'New Quay and Llanarth' (1987).***

bach arall tua hanner ffordd ar hyd y rhafflan rywbeth i'w wneud â'r diwydiant hefyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth ffisegol o'r nodweddion hyn ar wahân i natur hir a syth y ffyrdd hyn.

6.1.4 Ehangodd Ceinewydd yn gyflym yn y cyfnod hwn, fel y dangosir gan stent y dref ar fap Arolwg Ordnans 1887. Fodd bynnag, byrhoedlog oedd y twf ac ychydig o ehangu ychwanegol a welwyd ar ôl hyn tan y cyfnod modern.

DRAFT



***Ffigur 11 Copi o fap Degwm y 1840au wedi'I roi dros fap modern yr Arolwg Ordnans, yn dangos dechreuadau twf y dref.***




***Ffigur 12 Mae map Arolwg Ordnans 1887 yn dangos stent datblygiadau y brif dref sy'n parhau fel ag y mae heddiw i raddau helaeth.***

DRAFT

## 6.2 YSGRIFENNU HANESYDDOL

6.2.1 Mae geiriaduron topograffigol Samuel Lewis o'r DU yn destun amhrisiadwy i haneswyr sy'n ceisio dod o hyd i wybodaeth fanwl a chywir am leoedd ar ddechrau / canol y 19eg ganrif. Dechreuodd prosiect Lewis yn 1825 gydag arolwg printiedig cychwynnol a anfonwyd at glerigwyr. Cyfrannodd rhai o'r bendefigaeth a'r uchelwyr lleol at y prosiect hefyd. Mewn ymateb i'r argraffiadau cynnar, derbyniodd Lewis filoedd o lythyrau gyda chywiriadau ac ychwanegiadau a diwygiodd y testun gyda'r rhain, ac felly mae'r argraffiadau diweddarach yn fwy dibynadwy. Cyhoeddwyd *Imperial Gazetteer of England and Wales* gan John Marius Wilson am y tro cyntaf rhwng 1870 a 1872. Yn yr un modd â gwaith Lewis, mae'n rhoi manylion am gyfnod diweddarach.

6.2.2 *Yn A Topographical Dictionary of Wales* (London, pedwerydd argraffiad, 1849) gan Samuel Lewis ceir y cofnod yma ar gyfer Ceinewydd:

"NEW-QUAY, a sea-port, in the parish of Llanllwchaiarn, union of Aberaëron, hundred of Moythen, county of Cardigan, South Wales, 15 miles (N. W. by W.) from Lampeter: the population is included in the return for the parish. This place is advantageously situated on the shore of Cardigan bay and affords good anchorage to vessels of 500 tons: the depth of water is from two to six fathoms. The haven is securely sheltered from the westerly winds, and, if improved to the extent of which it is susceptible, might be made an excellent harbour of refuge. The pier, at least, might be enlarged, for which purpose a subscription was opened with success; but the attempt has been hitherto frustrated by the want of a sufficient title to the land, which would be requisite to carry that object into effect. In 1835 an act was obtained for making a road from this place to Aberaëron; and in November 1847 a treasury warrant was issued for transferring this creek and Aberaëron from the port of Cardigan to that of Aberystwith. There are sixty schooners and thirty smaller vessels belonging to New Quay, averaging from 20 to 200 tons' burthen, and employing about 390 men. Ship-building is extensively carried on, and very fine stone is worked in the vicinity. Fish of very superior quality are found in abundance on this part of the coast: soles, turbot, and oysters, are taken in great numbers during the season; and a good herring-fishery might also be established with advantage. The village is of considerable size, and is inhabited chiefly by persons connected with the business of the port: comfortable lodgings are provided for visitors, who resort to the place in summer for the benefit of sea-bathing. A fair is held on November 12th. —See Llanllwchaiarn."


DRAFFT

6.2.3 Yn 1870-72 ceir y disgrifiad yma o Geinewydd gan John Marius yn *Imperial Gazetteer of England and Wales*:

*"NEWQUAY, a village in Llanddewi-Aberarth parish, Cardigan; on the coast, 5 miles S W of Aberayron. It is a sub-port to Cardigan, a coast-guard station, and a watering-place; carries on ship-building and fishing; has a post-office under Carmarthen, a good small harbour, and fairs on 4 Oct. and 12 Nov. Pop. about 1,800."*

6.2.4 Ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn y disgrifiadau o Geinewydd rhwng canol a diwedd y 19eg ganrif, sydd efallai'n dangos bod twf y pentref wedi cyrraedd ei anterth yn ystod rhan ganol y cyfnod Fictoraidd. Mae'r pentref yn fawr, gyda gwasanaethau a chyfleusterau amrywiol, ac yn goroesi'n economaidd ar bysgota, adeiladu llongau a thwristiaeth.

6.2.5 Un eitem sy'n arbennig o ddiddorol i'w nodi yw'r boblogaeth. Amcangyfrifir ei fod oddeutu 1,800 yn y 1870au, ac mae cyfrifiad 2021 yn adrodd mai dim ond 1,045 o bobl oedd yn byw yno. Mae'n ymddangos nad yw Ceinewydd byth wedi dychwelyd i'w llwyddiant a'i phoblogrwydd yn y 19eg ganrif.




**Ffigur 13 Olion y trap pysgod siâp 'V' tanddwr i'w gweld yng nghanol y ddelwedd. Llun gan Google Earth**

### 6.3 CYN-HANESYDDOL

6.3.1 Er bod ardal Bae Ceredigion yn gyfoethog o ran safleoedd domestig ac amddiffynnol cyn-hanesyddol ar hyd yr arfordir, mae'r ardal yn union o amgylch Ceinewydd yn nodedig am ei diffyg safleoedd cyn-hanesyddol.

6.3.2 Dim ond dau safle a nodir yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, y ddau wedi'u lleoli gryn bellter o'r dref a'r ddau yn amheus o ran dyddiad a beth ydyn nhw. Mae'n bosibl bod tystiolaeth o enwau lleoedd yn awgrymu safleoedd pellach yn nes at yr anheddiad, ond ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw olion ffisegol hyd yma.

### 6.4 YR OESOEDD CANOL

6.4.1 Mae olion trapiau pysgod canoloesol i'w gweld o bryd i'w gilydd mewn mannau adeg llanw isel ar hyd y darn hwn o'r arfordir. Mae gan Geinewydd drap pysgod siâp 'V' arbennig, ond nid yw i'w weld hyd yn oed pan fydd y llanw'n isel. Gall y dyfnder hwn awgrymu ei fod yn dyddio o'r cyfnod Canoloesol cynnar.

6.4.2 Ar y tir, yr unig olion canoloesol sydd wedi goroesi a nodir yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yw hen fynwent hirgrwn Eglwys y Plwyf Llanllwchaearn y tu allan i'r Ardal Gadwraeth. Mae map Saxton dyddiedig 1578 yn dangos capel neu eglwys yn y lleoliad hwn, ond fe'i hailadeiladwyd yn llwyr yn 1863-5 ac nid oes unrhyw adeiladwaith cynharach i'w weld. Mae'r safle wedi'i gysegru i'r Sant 'Celtaidd' Sant Llwchaiarn sydd, ynghyd â siâp gwreiddiol y fynwent, yn awgrymu gwreiddiau Cristnogol cynnar posibl.

6.4.3 Ers yr 16eg ganrif, ar hyd y darn hwn o'r arfordir, cafodd dulliau tyfu cnydau eu gwella trwy ddefnyddio calch, ac mae olion amlwg o grŵp o chwe odyn galch ger Llanrhystud a mannau eraill. Ceir dwy gofnod ar gyfer odynau calch ar yr arfordir yn union ger Ceinewydd (a dwy arall ger Cei Bach) ond nid yw olion y ddau yn bodoli.

### 6.5 ÔL-GANOLOESOL

6.5.1 Mae'r cyfeiriadau cyntaf at Geinewydd yn dyddio o ddechrau'r 18fed ganrif ac yn sôn am bentref pysgota sy'n enwog am smyglo. Mae'n ymddangos bod hyn wedi parhau tan ddiwedd y ganrif a dywedir bod rhwydweithiau o ogofeydd yn y clogwyni wedi cael eu defnyddio i'r diben hwn.

6.5.2 Dechreuodd y diwydiant adeiladu llongau yng Ngheinewydd hefyd ar ddechrau'r 18fed ganrif a chyrhaeddodd ei anterth yng nghanol y 19eg ganrif ar ôl pasio Deddf Harbwr Ceinewydd yn 1835 ac adeiladu pier a chei cerrig newydd.

6.5.3 O ddechrau'r 19eg ganrif dechreuodd Ceinewydd fod yn borthladd o bwysigrwydd lleol.

6.5.4 Roedd diwydiannau cysylltiedig megis gwneud hwyliau a rhaffau, ffowndri, ac ysgolion oedd yn addysgu mordwyo a thrigonometreg wedi'u lleoli yn yr ardal hefyd.

6.5.5 Mae'r adeiladau cynharaf sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Ngheinewydd yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif. I'w nodi'n arbennig mae'r tai teras ar hyd ochr ogleddol Stryd y Cware, un o derasau cynharaf Ceinewydd, a rhan ddeheuol Rhes y Morwyr.

6.5.6 Mae nifer o derasau bach neu fythynnod cerrig gwerinol unigol sy'n anodd eu dyddio o'r dystiolaeth hanesyddol, ond mae eu teipoleg yn awgrymu eu bod yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif. Mae'r rhain yn cynnwys Lower Rock Terrace (i'r de o Rock Terrace), 1-5 Stryd yr Hen Goleg (Mason's Row neu Mason's Street gynt), Renown House ger Gerddi'r Ffynnon, yr eiddo ar ochr ogleddol Gerddi'r Ffynnon (neu Stryd Dolau) gan gynnwys tafarn y Dolau, The Shell Shop a'r Pepper Pot. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu newid tipyn (a dyna pam nad ydynt wedi'u rhestru) ac mae eu strwythur gwreiddiol yn anodd ei weld a'i ddeall, ond mae tystiolaeth glir yn eu deunyddiau a graddfa eu gwreiddiau gwerinol cynnar, a sonnir amdanynt hefyd yng nghyfrifiad 1841.

6.5.7 Adeiladwyd yr orsaf bad achub gyntaf yn 1864 i gadw bad achub tynnu a hwylio 12 rhwyf. Ond mae'n bosib bod gwylwyr y glannau wedi bod yma cyn hynny gan fod 'Watchhouse' i'w weld ar siartiau hanesyddol yr ardal o'r 1840au.



6.5.8 Yn anarferol, roedd dyfodiad y rheilffordd i Orllewin Cymru ar ddiwedd y 19eg ganrif wedi lleihau llwyddiant y porthladd a'r diwydiannau cysylltiedig, ond cynyddodd poblogrwydd y dref fel cyrchfan dwristiaeth wrth iddi ddod yn fwy hawdd ei chyrraedd. Ni fu gan Geinewydd ei gorsaf drenau ei hun erioed, er bod llwybr wedi'i gynllunio ond heb ei weithredu. Ar ôl i orsafoedd trenau gael eu hagor yn Aberaeron a Llandysul, roedd Great Western Railways yn cludo teithwyr i Geinewydd o'r gorsafoedd ar y ffordd.

***Ffigur 14 Mae lonydd, ffyrdd a llwybrau bach yn darparu mynediad rhwng y terasau***

DRAFFT

## 7. DADANSODDIAD GOFODOL

### 7.1 FFURF A CHYNLLUN

7.1.1 Mae Ceinewydd wedi'i lleoli ar benrhyn sy'n ymestyn allan tua'r gogledd i Fae Ceredigion. Mae'r dref wedi'i lleoli ar ochr ddwyreiniol y darn o dir ac wedi'i chyfeirio ar hyd yr arfordir.

7.1.2 Mae Ceinewydd wedi datblygu mewn cynllun tebyg i wyntyll hanner cylch mewn terasau ar hyd y llethrau o amgylch harbwr naturiol. Mae strydoedd neu lwybrau cul, lonydd neu ffyrdd bach yn ymuno â'r terasau hyn. Mae'r rhan ganolog yn union i'r gorllewin o'r pier yn fwy afreolaidd o ran ei chynllun ac efallai'n adlewyrchu'r pentref gwreiddiol.

7.1.3 Yn fwy diweddar mae Parc Gwyliau Quay West wedi ehangu'r dref ar hyd yr arfordir i'r gogledd-ddwyrain, ac er nad yw'n cael ei ystyried yn rhan o'r dref ei hun mewn gwirionedd, mae'n weledol amlwg yn y golygfeydd.

7.1.4 Mae Ceinewydd yn fach, gyda rhesi o derasau yn creu ardaloedd dwys o ddatblygiadau adeiledig. Ychydig o fannau agored sydd yn y dref.



*Ffigur 15 Mae palmentydd cerrig cobl hanesyddol wedi goroesi mewn rhai mannau*

7.1.5 Mae'r rhan fwyaf o'r terasau eiddo preswyl yn wynebu tua'r môr i wneud y gorau o'r golygfeydd. Gyda'r tir yn disgyn o'r gorllewin i lawr i'r môr yn y dwyrain, mae'r dref yn aml i'w gweld yn edrych allan ac i lawr ar yr harbwr a'r traethau.

7.1.6 Mae gan rannau gogleddol a deheuol y dref gynlluniau ffordd arbennig ac wedi'u cyfeirio o'r gogledd i'r de yn bennaf. Mae'r cynllun ffordd yn yr ardal ganolog yn grwm ond wedi'i

DRAFT

gyfeirio o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain yn bennaf. Mae'r ffyrdd yn cydgyfarfod o amgylch yr harbwr.

7.1.7 Mae lonydd neu lwybrau bach yn cysylltu'r terasau gyda grisiau yn aml i ymdopi â llethr y bryniau.

7.1.8 Mae palmentydd yn llydan gyda digon o le ar y cyfan ac wedi'u gwneud o ddeunyddiau amrywiol megis tarmac, setiau cerrig modern a slabiau concrit ac yn cynnwys rhai olion o'r cerrig cobl hanesyddol, ond lle mae'r ffyrdd yn gul ac wedi'u ffinio gan adeiladau, nid oes unrhyw balmentydd ar o leiaf un ochr o'r ffordd yn aml.

## 7.2 Ffiniau

7.2.1 Mae'r môr a'r arfordir yn ffurfio'r ffin ddwyreiniol gyfan tra bod caeau agored i'r gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Mae datblygiad modern Ceinewydd wedi lledu i'r gorllewin a'r de.

7.2.2 Mae'r ffurf adeiledig yn ddwys o fewn y dref ei hun gyda llawer o'r terasau tai yn ffurfio'r ffiniau â'r ffyrdd. Mae'r terasau ar ochr ogleddol y dref wedi'u hadeiladu ar ochr orllewinol y ffyrdd gyda gerddi bach, lle parcio a modurdai i'r dwyrain sy'n gadael yr olygfa yn agored allan i'r môr a thros erddi'r tai ar y teras oddi dano.

7.2.3 Mae gorchudd coed yn nodi ffin y datblygiad adeiledig i'r de a'r gorllewin.

7.2.4 O fewn y dref mae waliau terfyn cerrig yn gyffredin, ac mae gan lawer o'r tai waliau cerrig neu frics bach (rhai gyda rendr) yn amgáu eu gerddi blaen.

7.2.5 Mae llawer o reiliau diogelwch yn y dref gyda dyluniadau modern amrywiol.

## 7.3 GOLYGFEYDD A FFYRDD DYNESU

7.3.1 Mae'r ffordd ddynesu i Geinewydd yn ymlwybro trwy lonydd troellog ac anaml iawn y ceir golygfeydd o'r dref o bell. Y ffordd orau o werthfawrogi'r dref yw o ochr ddwyreiniol Bae Ceinewydd, o ddiwedd pier yr harbwr, neu allan ar y môr.

7.3.2 Oherwydd cynllun topograffigol y dref mae gan y mwyafrif o'r terasau olygfeydd godidog allan ar draws y bae i'r dwyrain.

7.3.3 O fewn y dref mae'r rhan fwyaf o'r golygfeydd eraill yn ganolig ar hyd y ffyrdd teras gyda golygfeydd byrrach o fewn canol y dref o amgylch yr harbwr.

7.3.4 Weithiau mae'n teimlo bod holl ffyrdd Ceinewydd yn arwain at yr harbwr a'r traethau. Mae llwybrau troed amrywiol hefyd yn arwain o'r dref i lawr i'r traethau, gan ddarparu mynediad

DRAFT

hawdd. Mae'r llwybr enwog Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd yr arfordir ac yn uniongyrchol trwy Geinewydd.

7.3.5 Mae golygfeydd i'r de o'r dref yn cynnwys y parciau carafanau anferth gyda chefnlenni prydferth o fryniau a choetiroedd.

## 7.4 MANNAU AGORED A GWYRDD

7.4.1 Ychydig o fannau agored sydd yng nghanol y dref hanesyddol oherwydd dwysedd y datblygu. Mae'r rhai sydd yno yn erddi preifat neu'n feysydd parcio yn gyffredinol.

7.4.2 Y traethau yw'r mannau agored amlycaf ac maent yn hynod boblogaidd trwy'r flwyddyn.

7.4.3 Tuag ochr ddeheuol y dref ac i'r dwyrain o Glanmor Terrace, yn dilyn yr arfordir, mae nifer o barciau gwyrdd bach gyda seddi a golygfeydd allan dros y môr. Mae llwybrau troed yma yn arwain i lawr at y traeth. Un o'r rhain yw Coronation Gardens, drws nesaf i'r pier, a grëwyd yn 1911 i ddathlu coroni Siôr V.



*Ffigur 16 Mae'r parciau cyhoeddus bach yn fannau adloniadol poblogaidd*

7.4.4 I'r gogledd o'r dref rhwng yr eiddo preswyl a'r ffatri bysgod mae ardal fach o dir agored garw gyda ffurfiannau clogwyni trawiadol y tu ôl iddi ac mae'n lle poblogaidd i bobl gerdded eu cŵn. Mae llwybrau'n arwain i lawr i Draeth y Chwarel.

7.4.5 Er bod y parciau cyhoeddus yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn ar y cyfan, mae rhai ardaloedd bach wedi gordyfu yn y dref, gan gynnwys lleoliad presennol pwmp y ffynnon (y tu ôl i'r wal ar gyffordd Stryd y Cware, Golygfor a Maes yr Odyn), ar rai o wynebau'r clogwyni uwchben y traethau ac ar hyd Glanmor Terrace. Mae rhywfaint o ganglwm Japan hefyd ger

pwmp y ffynnon a fydd yn lledaenu ac yn achosi problemau llawer mwy difrifol os na chaiff ei reoli.

7.5.6 Mae Parc Arthur, cae'r clwb pêl-droed, cyrtiau tennis a maes chwarae plant i'r gorllewin o'r dref ac ychydig y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth.

7.5.7 Ar wahân i ddatblygiadau modern cynyddol a meysydd carafanau, mae ochr orllewinol yr ardal gadwraeth wedi'i nodweddu gan gaeau mawr agored, gyda ffiniau coediog yn aml.

## 8. CYMERIAD PENSAERNÏOL

### 8.1 TRADDODIADAU, DEUNYDDIAU A MANYLION ADEILADU

8.1.1 Nodweddir pensaernïaeth Ceinewydd gan ei datblygiad yn y 19eg ganrif yn bennaf. Er y codwyd yr adeiladau hyn yn ystod Oes Fictoria yn gyffredinol, mae eu harddull yn gymysgedd o'r Sioraidd a'r Fictoraidd.

8.1.2 Ymddengys fod y rhan fwyaf o eiddo domestig wedi'u hadeiladu o gerrig gyda rendr lliw a thoeau llechi naturiol. Yn aml mae rendr eiddo a adnewyddwyd yn ddiweddar wedi cael ei dynnu ymaith gan ddatgelu'r cerrig rwbel naturiol neu'n fwy anarferol cerrig nadd – mae strwythurau mwy gwerinol yn gerrig rwbel noeth yn aml. Tywodfaen lleol yw'r cerrig yn gyffredinol, ac mae'r mapiau hanesyddol yn dangos lleoliadau chwareli lleol.

8.1.3 Mae toeau'r tai teras wedi'u grisio i fyny'r llethr ac mae gan bron bob eiddo o leiaf un simnai.

8.1.4 Mae gan eiddo domestig raddau amrywiol o addurniadau pensaernïol. Ar y cyfan mae gan y tai statws uwch fwy o nodweddion addurnol. Yn gyffredinol, mae nodweddion pensaernïol yn cyd-fynd ag arddull bensaernïol yr eiddo, er enghraifft:

*Arddulliau Sioraidd*

- Ffenestri codi pren cwarel bach
- Architrafau ffenestri a meini clo
- Architrafau drysau a phortsys yn yr arddull glasurol – (addurniadol iawn yn aml)
- Drysau wedi'u gosod yn uwch na'r palmant gyda grisiau (llechi ar gyfer y rhai gwreiddiol)
- Conglfeini
- Mowldinau capan
- Toeau talcennog

- Toeau llechi ar oledd isel
- Cyrn simnai mawr – cerrig neu rendr
- Drysau pren chwe phanel (lle maent wedi goroesi)
- Ffenestri linter neu oleuadau uwchben
- Mesuriadau clasurol a chymesuredd o ran graddfa a dyluniad
- Cerrig gyda rendr wedi'i baentio a manylion cyferbyniol
- Arddull unigol (tai drws nesaf / terasau yn debyg ond yn defnyddio manylion gwahanol)
- Gerddi wedi'u codi yn y blaen yn aml ac wedi'u hamgylchynu gan waliau cerrig (rhai wedi'u rendro)

DRAFT




***Ffigur 17 Eiddo gyda rhai manylion pensaernïol sy'n nodweddiadol o'r arddull Sioraidd***

*Arddull Fictoraidd*

- Rheiliau a gwaith haearn pensaernïol
- Ffenestri codi pren dwy dros ddwy
- Ffenestri bae
- Toeau llechi
- Portshys – addurniadol iawn yn aml
- Rhai estyll tywydd pren addurnol a theils crib
- Drysau pren pedwar panel (lle maent wedi goroesi)
- Goleuadau uwchben
- Simneiau brics neu wedi'u rendro
- Yn gyffredinol mae gan fesuriadau gymhareb llai o led i uchder na thai Sioraidd
- Arddull unigol (tai drws nesaf / terasau yn debyg ond yn defnyddio manylion gwahanol)
- Waliau bach o frics neu gerrig yn amgáu gerddi blaen bach – rhai wedi'u rendro

DRAFFT




***Ffigur 18 Mae portshys yn nodwedd bensaernïol gyffredin yng Ngheinewydd ac yn amrywio o ran arddull a manylion***

8.1.5 Er gwaethaf hyn, gwelir achosion lle mae gan dai cynharach nodweddion diweddarach neu i'r gwrthwyneb, yn enwedig lle maent wedi'u disodli neu lle maent wedi'u hadeiladu ar drothwy newid arddull.

8.1.6 Ar draws Ceinewydd mae llawer o nodweddion gwreiddiol wedi cael eu newid, yn enwedig ffenestri a drysau, gyda dyluniadau a deunyddiau modern gwael.

8.1.7 Mae llawer o enghreifftiau hefyd o gyflwyno nodweddion cyfoes megis balconïau gwydrog, cladin a ffenestri cyfoes, rhai ohonynt o ansawdd da ac wedi'u hintegreiddio'n ofalus i gyd-fynd â'r arddull hanesyddol.

8.1.8 Mae portshys yn fwy cyffredin ac addurnol yng Ngheinewydd nag mewn ardaloedd cadwraeth eraill yng Ngheredigion ac yn nodwedd arbennig.

8.1.9 Mae'r rhan fwyaf o'r tai preswyl wedi'u rendro a'u paentio mewn lliwiau hwyliog sy'n atgoffa rhywun o drefi bach eraill y Canolbarth.

8.1.10 Mae'r ychydig adeiladau mwy yn y dref yn gysylltiedig â'r cyfnod adeiladu llongau diwydiannol a phorthladd pysgota blaenorol. Maent wedi'u hadeiladu o gerrig rwbel brown heb eu rendro ac yn bedwar llawr. Mae enghreifftiau'n cynnwys siop pysgod a sglodion The Captain's, hen warws gwneud hwyliau, y warws ar y pier, cyn stordy ar gyfer y New Quay Harbour Co, ac adeilad y llithrfa sydd bellach yn gartref i Ganolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion. Mae wal ddeheuol adeilad y pier yn cynnwys tri bwrdd tollau enamel o ddiwedd y 19eg ganrif i ddechrau'r 20fed ganrif sy'n nodi'r ffioedd oedd yn daladwy am y nwyddau a gafodd eu glanio yng Ngheinewydd.  Ystyrir eu bod yn oroeswyr prin byrddau o'r fath.

DRAFT




*Ffigur 19 Strwythurau hanesyddol a'r orsaf bad achub ym mhen deheuol yr harbwr*

8.1.11 O gwmpas cyrion y dref hanesyddol yn bennaf mae filas mwy o faint ar wahân megis Fron Dolau i'r gorllewin a'r rhai ar hyd Ffordd Newydd i'r de.

8.1.12 Mae'r harbwr a'r pier yn rhan annatod o hanes a datblygiad y dref. Adeiladwyd y pier a'r cei yn 1835 gan Daniel Beynon, gan addasu cynlluniau a gynhyrchwyd yn 1820 gan John Rennie, o flociau rwbel sgwâr, enfawr. Ni chafodd y goleudy bach cerrig, 30 troedfedd o uchder, ei adeiladu tan 1839 ac fe'i gosodwyd ar ddiwedd y pier. Cafodd ei adnabod yn lleol fel y 'Pepper Pot'. Fe wnaeth storm arw yn 1859 ddifrodi'r pier a golchi'r goleudy i ffwrdd. Fe'i hailadeiladwyd ond cafodd ei ddinistriad yr eildro bron i 80 mlynedd yn ddiweddarach yn ystod storm fawr 1937. Saif postyn mawr yn ei le sy'n gofeb rhyfel. Adeiladwyd y pier o gerrig wedi'u cludo o chwarel ym mhen draw Stryd y Cware ar draciau rheilffordd ac y mae rhan fach o hyn i'w gweld heddiw y tu ôl i gaffi Gingero's.

8.1.13 Ar ochr tir y pier mae hen dŷ offer achub bywyd o ddiwedd y 19eg ganrif. Fe'i cofnodwyd fel eiddo gwag ond erbyn hyn mae wedi cael ei ymestyn yn sylweddol a'i droi'n eiddo preswyl.

8.1.14 Ym mhen deheuol yr harbwr mae'r orsaf bad achub fodern, y llithrfa batent hanesyddol a llithrfa fodern yn amgáu'r harbwr o'r de. Gosodwyd mecanwaith y llithrfa batent yn 1863 a chafodd ei dymchwel yn 1901. Fe'i defnyddiwyd i gludo llongau i fyny'r llithrfa gyda chrud ar reiliau haearn. Mewn pedwar ceudod ar y wal flaen mae pedwar cylch haearn anferth gyda chadwyni ynghlwm wrthynt.

8.1.15 Mae dau strwythur bach yng Ngheinewydd y credir eu bod yn eiddo i'r Cyngor Sir a ddefnyddir fel lleiniau masnachu bwyd a diod. Mae un wedi ei leoli ar ochr y llithrfa i lawr i draeth y de ac mae un yn ffurfio rhan o'r bloc toiledau ar ben ucha'r harbwr. Gellid gwella'r ddau strwythur hyn yn weledol trwy waith cynnal a chadw a defnydd. Roedden nhw'n wag yn ystod haf 2024.

8.1.16 Mae caffi traeth / siop ar draeth y de hefyd – mae hwn yn adeilad modern, to fflat heb unrhyw rinweddau pensaernïol arbennig. Cyngor Sir Ceredigion sy'n berchen arno ac mae'n cael ei osod ar brydles. Er ei fod yn swatio yng nghefn y traeth dyma'r peth cyntaf y mae ymwelwyr yn ei weld ar ddiwedd y llithrfa. Dylid bod yn ofalus gyda dyluniad, graddfa ac ansawdd yr adeiladau sy'n agos at neu ar y traeth.

## 8.2 STRYDLUN, SIOPAU A MASNACHOL

8.2.1 Mae gan Geinewydd graidd masnachol bach ond prysur, er ei fod yn llawer tawelach y tu allan i'r tymor gwyliau pan fydd rhai siopau a safleoedd bwyd yn cau.

DRAFT

8.2.2 Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo masnachol wedi cael eu haddasu o stoc tai hŷn neu hen dafarndai ac nid oes unrhyw flaenau siopau traddodiadol yng nghanol y dref. Mae hyn wedi arwain at amrywiaeth fawr o ychwanegiadau modern megis ffenestri siop anhraddodiadol, styllod dŵr a chladin modern, grisiau, ardaloedd eistedd â tho neu ganopïau modern, balconïau, polion fflagiau a baneri, estyll tywydd wedi'u lleoli'n wael a llawer iawn o arwyddion wedi'u gosod ad hoc trwy'r ardal. Mae ansawdd y deunyddiau a'r dyluniad yn amrywio, er bod y rhan fwyaf o'r gwaith mwy diweddar i'w weld o ansawdd da. Mae'r adeiladau wedi'u rendro'n aml (gyda neu heb gladin) ac wedi'u paentio'n lliwiau llachar, hwyliog. Mae'r effaith yn debyg iawn i drefi glan môr eraill, un o brysurdeb siriol ac amrywiaeth lliwgar, a lle poblogaidd a bywiog.



***Ffigurau 20 a 21 Byddai'n hawdd osgoi effeithiau esthetig negyddol goleuadau stryd a llinellau ffôn / trydan o ansawdd gwael***

DRAFT

8.2.3 Mae gan y dref gyflenwad da o gelfi stryd, yn enwedig meinciau o ansawdd a deunyddiau amrywiol.

8.2.4 Mae nifer fawr o reiliau diogelwch hefyd o ddyluniadau a deunyddiau amrywiol a bolardiau stryd, biniau stryd a bolardiau parcio.

8.2.5 Mae arwyddion priffyrdd a goleuadau stryd yn weddol anweladwy. Yr eithriad i hyn yw'r goleuadau stryd o ansawdd gwael ar hyd rhai o'r terasau sydd wedi'u cysylltu â'r adeiladau rhestredig, a hefyd llinellau priffyrdd ac arwyddion ar groesffyrdd / cyffyrdd (system un ffordd, dim mynediad a strydoedd pengaead er enghraifft). Gallai llinellau melyn fod yn deneuach a'u lliwio'n fwy ysgafn. Mae llawer o wifrau ffôn a thrydan ar draws y terasau hefyd sy'n amharu ar estheteg y strydlun.

8.2.6 Mae lle parcio yn brin iawn yng Ngheinewydd a nodwyd hyn fel un o'r materion sy'n peri'r pryder mwyaf i drigolion. Mae ceir yn cael eu parcio lle bynnag y gallant, ac yn gyffredinol mae'r meysydd parcio dynodedig yn llawn, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau.

8.2.7 Mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau palmant yn yr ardal gadwraeth, gan gynnwys palmantau concrit, tarmac, slab concrit ac ychydig o ardaloedd gyda choblau hanesyddol. Mae'r setiau cerrig modern a ddefnyddir mewn rhai ardaloedd yn ychwanegiad esthetig da defnyddio hefyd ar gyfer tawelu traffig a mannau croesi i gerddwyr, er enghraifft, ar Heol yr Eglwys.

## 9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG

### 9.1 HENEBION COFRESTREDIG AC ADEILADAU RHESTREDIG

9.1.1 Nid oes unrhyw henebion cofrestredig yn yr ardal gadwraeth.

9.1.2 Mae 81 o adeiladau rhestredig o fewn Ardal Gadwraeth Ceinewydd ac mae pob un ohonynt yn adeiladau rhestredig Gradd II. Dangosir y rhain ar y map trosodd.

### 9.2 ADEILADAU O DDIDDORDEB LLEOL


9.2.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb lleol – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest), a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

9.2.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisïau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

9.2.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.

DRAFFT

*Ffigur 22 Map yn dangos lleoliad adeiladau rhestredig yng Ngheinewydd*



9.2.4 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol o fewn Ardal Gadwraeth Ceinewydd wedi'u rhestru ond mae rhai adeiladau heb eu rhestru y dylid eu hystyried i'w cynnwys ar 'restr leol':

- Adeiladau anrhestredig posibl o ddechrau'r 19eg ganrif, fel y nodir yn 6.4.6.
- Adeiladau neu strwythurau hanesyddol sydd wedi'u cynnwys ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol
- Yr hydrant dŵr hanesyddol ar gyffordd Rhes y Morwyr a Golygfor a'r pwmp ffynnon hanesyddol ar gyffordd Stryd y Cware, Golygfor a Maes yr Odyn (ddim yn y lle gwreiddiol yn ôl pob tebyg).
- Unrhyw derasau anrhestredig o'r 19eg ganrif sydd wedi cadw'r mwyafrif o'u nodweddion pensaernïol gwreiddiol, e.e. 19 Rhes y Morwyr, y tŷ ar gornel Rhodfa'r Wawr ar y gyffordd â Heol y Parc, y pedwerydd tŷ teras i'r gogledd o Gapel Tabernacl ar hyd Glanmor Place (enw anhysbys), ac eraill o bosibl.

DRAFT




***Ffigur 23 Yn ôl y sôn y Black Lion Hotel oedd hoff dafarn Dylan Thomas yng Ngheinewydd***

## 10. CYMDEITHASAU HANESYDDOL

### 10.1 Pobl

10.1.1 Mae Ceinewydd yn adnabyddus iawn am ei chysylltiad â Dylan Thomas. Am gyfnod yn ystod yr ail ryfel byd bu'r bardd a'i deulu yn byw mewn byngalo bach ychydig y tu allan i'r dref. Cynhyrchodd Dylan rai o'i weithiau mwyaf llwyddiannus pan oedd e'n byw yma, megis 'A Refusal to Mourn the Death, by Fire, of a Child in London' a 'A Winter's Tale'. Roedd arferion ysgrifennu Dylan yn golygu y byddai'n cerdded i'r dref bob dydd, rhywbeth oedd yn sail i'w ddarllediad radio yn 1944, 'Quite Early One Morning'. Roedd y darllediad yn brototeip ar gyfer ei ddrama ddiweddarach, 'Dan y Wenallt'. Roedd Ceinewydd hefyd yn ysbrydoliaeth ar gyfer tref ffug Dylan Llareggub. Yn ôl y sôn roedd Dylan yn yfed gyda Richard Burton ifanc yn y Blue Bell, sydd bellach yn Deli a Bistro, ond mae'n debyg mai'r Black Lion Hotel oedd hoff dafarn Dylan. Roedd trydydd cofiannydd Thomas, George Tremlett, wedi disgrifio'r cyfnod yng Ngheinewydd fel " one of the most creative periods of Thomas's life". Trwy Lwybr Dylan Thomas, gallwch chi ddilyn ôl troed Dylan.

10.1.2 Un o arweinwyr blaenllaw Diwygiad Cristnogol Cymru 1904-1905 oedd y pregethwr Methodistaidd o Geinewydd, Joseph Jenkins, a drefnodd gynhadledd yng Ngheinewydd yn 1903 ar y thema dwysau ffyddlondeb i Iesu Grist. Cyflwynodd Jenkins 'ôl-gyfarfodydd' bore Sul hefyd gan ddenu pobl ifanc i'w gymuned eglwysig yng Ngheinewydd. Dywedir bod y digwyddiadau hyn wedi sbarduno Diwygiad 1904-1905 – y diwygiad Cristnogol mwyaf yng Nghymru yn ystod yr 20fed ganrif. Roedd yn un o'r rhai mwyaf dramatig o ran ei effaith ar y boblogaeth gan ysgogi adfywiadau mewn sawl gwlad arall. Roedd Jenkins yn pregethu yng Nghapel Presbyteraidd y Tabernacl ar Glanmor Terrace sydd â ffenestr liw wedi ei chysegru iddo.

10.1.3 Yn ystod y rhan fwyaf o'r 18fed ganrif roedd smyglo yn weithgaredd poblogaidd a phroffidiol i lawer ar hyd arfordir Ceredigion. Yn ystod Rhyfeloedd Napoleon, codwyd toll fawr ar nwyddau oedd yn cael eu mewnforio. Roedd y dreth ar de, er enghraifft, cymaint â 70% o gost y te ei hun. Nwyddau eraill a gafodd eu trethu'n drwm oedd gwin, halen, gwirodydd a thybaco. Roedd gan arfordir gorllewin Cymru, ymhell o'r prif lwybrau masnach, nifer fawr o draethau diarffordd a childraethau bach oedd yn addas ar gyfer smyglo nwyddau o Ynys Manaw ac Iwerddon. Roedd smyglo halen yn gyffredin rhwng Ceinewydd ac Abergwaun, ac yn 1704 mae cofnodion bod smyglwyr wedi gwrthdaro â swyddogion tollau. Roedd William Owen wedi smyglo brandi a halen o Ynys Manaw i Fae Ceredigion a Phen Llŷn yn y 1720au a'r 1730au. Roedd yn lleidr beiddgar a dieflig oedd, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi lladd o

DRAFT

leiaf chwech dyn cyn iddo gael ei ddal a'i grogi yn 1747. Yn wahanol i smyglwyr eraill, mae helyntion William wedi'u dogfennu mor dda oherwydd ei fod e wedi ysgrifennu'r cyfan ar bapur. Mae'r llawysgrif yn cael ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth. Arweiniodd Siôn Cwilt, neu John White, griw o smyglwyr ar hyd arfordir Ceredigion ond ni chafodd ei ddal erioed, efallai oherwydd ei fod yn cyflenwi gwin a brandi gwaharddedig i Uchel Siryf y sir! Honnir bod rhwydwaith o ogofâu ger Heol yr Eglwys yng Ngheinewydd a gafodd eu cloddio yn arbennig ar gyfer cuddio nwyddau oedd wedi cael eu smyglo. Mor ddiweddar â 2016 datgelwyd 'twnnel cudd' yng nghefn un o siopau Ceinewydd.

### 10.2 Traddodiadau

10.2.1 Mae gwreiddiau Ceinewydd fel clwstwr bach o fythynnod pysgotwyr, a'r nifer mwyaf erioed o benwaig i gael eu dal yn 1745 (pan gymerodd 47 o gychod ychydig llai na miliwn a hanner o bysgod) yn cadarnhau bod pysgota yn chwarae rhan fawr ym mywyd y dref. Hyd yn oed heddiw mae cychod pysgota'n dadlwytho eu llwythi o grancod, gwichiaid moch a chimychiaid ar hyd wal yr harbwr. Mae Quay Fresh & Frozen Foods yn ffatri prosesu pysgod fasnachol sydd wedi'i lleoli ym mhen gogleddol tref Ceinewydd mewn hen chwarel. Roedd y chwarel yn fan cyfarfod i bysgotwyr lleol gyda thanciau dal byw yn wreiddiol. Cafodd y crancod a chimwch byw a gafodd eu dal eu casglu a'u trawslwytho i'w gwerthu i Ewrop. Mae tîm pêl-droed Ceinewydd yn cael ei adnabod fel y Dynion Mecryll!

10.2.2 Mae Ceinewydd yn rhedeg un o'r regatas hynaf yn y DU, a gynhaliwyd yr un cyntaf yn 1829. Yn cael ei hadnabod bellach fel Regata Bae Ceredigion, mae wedi tyfu i fod yn ddigwyddiad tridiau gyda rasys hwylio a nofio, digwyddiadau i'r teulu a chystadlaethau adeiladu cestyll tywod.

10.2.3 Ers diwedd y 90au mae gŵyl gerddoriaeth Ceinewydd wedi bod yn ddigwyddiad poblogaidd yng nghalendr y dref. Dechreuodd y digwyddiad mewn gardd gwrw tafarn, ond erbyn hyn mae wedi'i leoli ym Mharc Arthur, cae pêl-droed Ceinewydd.

## 11. HANESION CUDD

### 11.1 POTENSIAL ARCHEOLEGOL

11.1.1 Nid yw'n syndod mai'r archaeoleg forwrol sydd â'r potensial mwyaf yng Ngheinewydd.

11.1.2 Mae'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn dangos pum llongddrylliad ar hyd y bae yng Ngheinewydd, pob un yn dyddio i'r adeg pan oedd diwydiant adeiladu llongau'r dref yn ei anterth ar ddechrau/canol y 19eg ganrif.

11.1.3 Mae trap pysgod siâp V canoloesol cynnar posibl hefyd wedi'i leoli ym Mae Ceinewydd.



***Ffigur 24 Mae'n bosibl bod eiddo yn Stryd y Cware, y cynharaf o'r terasau, yn cynnwys tystiolaeth o ddechrau'r 19eg ganrif***

DRAFT

11.1.4 Mae nifer o adroddiadau archeolegol wedi cael eu cynhyrchu gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (Heneb erbyn hyn) ar y briffiau gwylio a wnaed ar gyfer y Llithrfa Batent yng Ngheinewydd oherwydd gwaith ailadeiladu a diogelwch yn dilyn difrod storm. Adeiladwyd y llithrfa ar ochr ddeheuol y bae yn 1863. Fe'i defnyddiwyd ar gyfer atgyweirio llongau a hefyd i ymestyn hyd llongau i gynyddu eu capasiti gludo.

11.1.5 Mae rhywfaint o botensial ar gyfer treftadaeth a adeiladwyd yn gynharach yn y 19eg ganrif sydd wedi'i chuddio o fewn yr adeiladau sydd wedi goroesi yn y dref. Fodd bynnag, o ystyried faint o waith ailfodelu ac addasu sydd wedi digwydd, mae'r potensial yn debygol o fod yn eithaf bach.

## 12. BIOAMRYWIAETH

### 12.1 ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG (ACA) A SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG (SODDGA)

12.1.1 Mae Ceinewydd wedi'i lleoli o fewn SoDdGA Aber-arth – Carreg Wylan ac ACA Bae Ceredigion.

12.1.2 Mae ACA Bae Ceredigion yn gorchuddio'r arfordir ac ardal sy'n ymestyn allan i'r môr o Fae Ceibwr yn Sir Benfro i Aber-arth, ychydig i'r gogledd o Aberaeron. Mae wedi'i dynodi

oherwydd bod ganddi fywyd morol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae wedi'i dynodi ar sail saith nodwedd cadwraeth:

- Dolffin trwynbwl (Tursiops truncatus)
- Morlo llwyd (Halichoerus grypws)
- Lamprai'r môr (Petromyzon marinws)
- Lamprai'r afon (Lampetra fluviatilis)
- Riffiau
- Banciau tywod (wedi'u gorchuddio ychydig gan ddŵr môr bob amser)
- Ogofâu môr (boddedig neu'n rhannol foddedig)

12.1.3 Mae'r arfordir ar hyd yr ardal hon hefyd wedi'i ddynodi'n SoDdGA Aber-arth – Carreg Wylan am resymau daearegol, geomorffolegol a biolegol. Mae'r dolffin trwynbwl a'r morlo llwyd o ddiddordeb arbennig. Mae traethau diarffordd ac ogofâu môr yn darparu mannau geni ar gyfer morloi llwyd. Mae'r draethlin, sy'n cynnwys riffiau, pyllau glan môr, clogfeini, cobl agored, graean a thywod yn cynnal ystod o gymunedau rhynglanwol pwysig, gan gynnwys enghreifftiau gwych o riffiau llyngyr diliau. Mae'r cramenogion Pectenogammarus planicrurus, sy'n brin yn genedlaethol ac sy'n nodweddiadol o lannau graean glân, i'w gweld yma. Mae'r clogwyni môr yn darparu clwydi a safleoedd nythu ar gyfer poblogaethau cenedlaethol o'r frân goesgoch, y wylan goesddu a'r wylan gefnddu leiaf. Mae cynefinoedd o ddiddordeb arbennig sy'n gysylltiedig â'r clogwyni a'r llethrau arfordirol yn cynnwys llystyfiant holltau a silffoedd clogwyni, glaswelltir glan môr a rhostir arfordirol sy'n cynnal nifer fawr o rywogaethau o blanhigion sy'n brin yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan gynnwys lafant y môr, gromil cyffredin a chlust y gath.


## 12.2 ISADEILEDD GWYRDD A CHOED

12.2.1 Mae ffurf adeiledig Ceinewydd yn ddwys, ond mae'n dal i gadw cyfran resymol o fannau ac isadeiledd gwyrdd yn y dref, yn cynnwys gerddi preifat, y caeau chwarae, a'r parciau arfordirol yn bennaf.

12.2.2 Mae Ceinewydd i Dresaith wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth, dynodiad anstatudol a ffurfiwyd trwy gytundebau rhwng awdurdodau lleol a thirfeddianwyr. Mae Arfordiroedd Treftadaeth yn gorchuddio'r darnau gorau o arfordir Cymru a Lloegr – mae ardaloedd yn cael eu cydnabod am eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth. Mae'r fenter a reolir yng Nghymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio:

DRAFT

*Ffigur 25 Map yn dangos lleoliad yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn ardal Ceinewydd*





*Ffigur 26 Mae gwylan y penwaig, er gwaethaf ei phresenoldeb ym mhobman yng Ngheinewydd, ar y Rhestr Goch oherwydd y gostyngiad parhaus yn ei nifer a'r boblogaeth sy'n gaeafu*

- nodi'r darnau gorau o arfordir annatblygedig
- sicrhau eu cadwraeth a'u rheolaeth
- hyrwyddo mynediad a mwynhad

12.2.3 Yn union y tu allan i'r dref ac yn ffurfio ei lleoliad mae coetiroedd, lleiniau o goed, gwrychoedd a chaeau agored.

12.2.4 Nid yw Ceinewydd wedi'i chynnwys o dan ddata Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orchudd Coed Trefol. Mae map coetiroedd Rhestr y Goedwig Genedlaethol (diweddarwyd 2024) yn cwmpasu pob ardal o goedwig a choetir dros 0.5 hectar gydag o leiaf 20% o orchudd canopi, neu'r potensial i'w gyflawni, ac o leiaf 20 metr o led. Nid yw'n dangos unrhyw ardaloedd sylweddol o goetir o fewn Ardal Gadwraeth Ceinewydd er bod gorchudd coetir da ar hyd yr arfordir i'r de ac ardaloedd eraill i'r de-orllewin o'r dref, ac i'r gorllewin i'r gogledd o Ffordd yr Eglwys. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gorchudd coed i leoliad yr ardal gadwraeth.

DRAFT



*Ffigur 27 Mae gorchudd coed yn ffurfio rhan bwysig o leoliad yr ardal gadwraeth*

DRAFT

## 13. MATERION – DADANSODDIAD CGCB

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| Lleoliad<br>Môr, traethau a harbwr<br>Pensaernïaeth ôl-ganoloesol o ansawdd da<br>Defnydd o ddeunyddiau traddodiadol lleol<br>Ymdeimlad o ddarganfod<br>Golygfeydd allan ac i mewn<br>Datblygiad / ychwanegiadau modern o ansawdd da<br>Cyrchfan poblogaidd i dwristiaid<br>Diwydiant pysgota hanesyddol<br>Cysylltiadau â Dylan Thomas<br>Ychydig o adeiladau gwag<br>Y gymuned leol | Nodweddion pensaernïol gwreiddiol wedi'u colli<br>Asedau a chyfleusterau cymunedol wedi'u lleoli y tu allan i ganol y dref<br>Blaenau siopau, arwyddion a chelfi stryd o safon amrywiol<br>Diffyg lle parcio<br>Dyluniad siopau ac arwyddion<br>Topograffeg a mynediad<br>Gwifrau ffôn a thrydanol ymwthiol<br>Natur dymhorol<br>Diffyg cyfleoedd datblygu yn y dref<br>Effaith weledol meysydd carafanau |
| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
| Gwella eiddo manwerthu<br>Gweithgareddau awyr agored / twristiaeth gynali-adwy<br>Gwarchod neu newid nodweddion pensaernïol gwreiddiol ar adeiladau rhestredig ac anrhestredig<br>Cynyddu ymwybyddiaeth y gymuned ac ymwelwyr o rai agweddau ar hanes ac arwyddocâd<br>Gwella golygfeydd cefn eiddo a golygfeydd allan o'r terasau<br>Gwella'r strydlun<br>Datblygu'r cynnig twristiaeth treftadaeth – smyglo a hanes morwrol – amgueddfa a digwyddiadau | Datblygiadau, estyniadau ac addasiadau newydd amhriodol<br>Colli manylion a nodweddion pensaernïol gwreiddiol<br>Effeithiau datblygu ar y lleoliad<br>Lleihad mewn twristiaeth a defnydd lleol o'r dref<br>Cyfleusterau cymunedol y tu allan i'r dref<br>Cystadleuaeth gyda threfi twristiaeth eraill a chanolfannau mawr<br>Annibendod gweledol ychwanegol<br>Microgynhyrchu ymwthiol |

DRAFFT

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales



# CEINEWYDD

# Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Tachwedd 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 CYFLWYNIAD I'R CYNLLUN RHEOLI

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

# 2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

## 2.1 CYFLWYNIAD I GYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.

2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.

2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.

2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

DRAFT

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLl yn dilyn ymgynghoriad;
- **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLl.

DRAFT






***Ffigurau 1 a 2 Dau dŷ o oedran tebyg sy'n dangos yr effaith weledol y gall ffenestri a drysau newydd amhriodol ei chael ar gymeriad adeilad***

## 2.2 Ceinewydd

2.2.1 Nid oes gan Geinewydd Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le ar hyn o bryd.

2.2.2 Mae dau brif gyfnod/arddull bensaernïol treftadaeth adeiledig yng Ngheinewydd: datblygiad gwerinol bythynnod ar ddechrau'r 19eg ganrif a'r diwydiant morwrol; a'r terasau ffurfiol yn yr arddull Sioraidd a Fictoraidd a datblygiadau cysylltiedig o ganol i ddiwedd y 19eg ganrif.

2.2.3 Yn ogystal â hyn, mae agwedd bensaernïol gyfoes bendant i gymeriad Ceinewydd, yn bennaf trwy ychwanegiadau neu addasiadau i adeiladau hŷn.

2.2.4 Mae manylion pensaernïol y cyfnod, megis ffenestri, drysau, portshys, simneiau, architrafau, triniaethau ffiniau yn rhan bwysig iawn o gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Mae llawer o'r adeiladau mwyaf arwyddocaol yn bensaernïol ac yn hanesyddol yn adeiladau rhestredig, serch hynny, bu cryn dipyn o newid amhriodol i nodweddion pensaernïol ar asedau adeiledig dynodedig a heb eu dynodi. Mae hyn yn cynnwys eu dyluniad a'u deunyddiau.

2.2.5 Mae newid y nodweddion hyn fesul tipyn yn arwain at erydiad cronnus o gymeriad ac arwyddocâd nid yn unig ar gyfer yr adeiladau unigol ond hefyd ar gyfer yr ardal gadwraeth gyffredinol, yn enwedig yng Ngheinewydd lle mae cryn unffurfiaeth o ran pensaernïaeth.

2.2.6 Nid oes rhaid i gadw nodweddion cyfnod ymyrryd â manteision gwella effeithlonrwydd ynni; mae llawer o ffyrdd o gyflawni hyn heb ddinistrio cymeriad hanesyddol a chadw'r hyn sy'n gwneud yr adeiladau unigol, ac Ardal Gadwraeth Ceinewydd, o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

2.2.7 Mae terasau Ceinewydd yn golygu bod toeau a chefn pob teras yn weladwy o'r priffyrdd a mannau cyhoeddus o'r lefel uwch. Felly, mae nodweddion megis deunyddiau to, ffenestri to, dormerau, paneli solar, ac estyniadau cefn yn effeithio ar y cymeriad cyffredinol. Dylid dylunio a gosod y rhain yn ofalus iawn, eu lleoli a'u hintegreiddio i'r bensaernïaeth bresennol, lle bo modd. Byddai hyn yn golygu y gallai Cyfarwyddyd Erthygl 4 fod yn gymwys i gefn eiddo yn ogystal â blaenluniau. Gallai rheoli newidiadau i doeau a thalcenluniau mewn modd cadarnhaol arwain at fuddion mawr o ran gwella cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.

2.2.8 Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod caniatâd ar gyfer y gwaith, ond mae'n golygu y gall yr awdurdod gadw rhywfaint o reolaeth dros ddyluniad a manylion y datblygiad arfaethedig a rhoi caniatâd gydag amodau priodol.

2.2.9 Yn ystod y drafodaeth yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, nodwyd bod cefnogaeth dros wneud penderfyniadau mwy cyson o ran materion cynllunio a bod gorfodaeth fwy cyson yn cael ei

DRAFT

chefnogi. Roedd awydd i gael Cynllun Gwella Treflun a nodwyd bod adeiladau hanesyddol amrywiol yn bwysig.

2.2.10 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae sylwadau wedi dod i law yn gwrthwynebu cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae gweithredu Cyfarwyddyd yn llwyddiannus yn dibynnu ar yr awdurdod cynllunio a'r gymuned leol yn gweithio ochr yn ochr i ddod i gyfaddawd synhwyrol rhwng cadw cymeriad hanesyddol a'r angen i ddarparu adeiladau sy'n addas ar gyfer byw a gweithio yn yr 21ain ganrif. Mae awgrym wedi cael ei wneud y gallai cyfres o 'Ganllawiau' a Swyddog Cyswllt Cynllunio fod yn gyfaddawd arall i'r defnydd a awgrymir o reolaeth trwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 a'r defnydd o bwerau gorfodi.



*Ffigur 3 Mae'r terasau yng Ngheinewydd yn golygu bod y toeau, y cefnluniau a'r gerddi i'w gweld o fannau cyhoeddus*

## 2.3 Argymhellion

2.3.1 Bod ymgynghori manwl pellach yn cael ei gynnal o fewn y gymuned leol ynghylch y posibilrwydd o wneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 neu'r dewis arall o lunio cyfres o 'ganllawiau' a darparu gwasanaeth cyswllt Swyddog Cynllunio. Dewis arall fyddai gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 ond cyfuno hwn gyda chyllid grant / cynllun gwella treflun.

2.3.2 Dylai'r ymgynghoriad hwn ystyried yr holl gyfyngiadau posibl a fyddai'n digwydd o ganlyniad i wneud y Cyfarwyddyd a'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor Sir. Dylid nodi hefyd, er gwaetha'r cyfyngiad sydd eisoes yn ei le ar gyfer adeiladau rhestredig, bu cryn erydu ar y cymeriad hanesyddol allanol trwy newid nodweddion traddodiadol heb awdurdod. Mae athroniaeth cadwraeth gyfredol yn troi'n raddol at dderbyn technegau newydd i wella effeithlonrwydd ynni heb niweidio'r cymeriad, ac mae'n debygol y bydd technolegau newydd yn parhau i gael eu datblygu. Felly bydd angen diweddaru 'Canllawiau' yn barhaus i adlewyrchu hyn a byddai angen eu geirio'n ofalus iawn er mwyn adlewyrchu natur unigryw pob adeilad.

2.3.3 Pe bai'r Cyngor yn penderfynu y dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) i Ardal Gadwraeth Ceinewydd, dylid nodi na ellir cymhwyso hyn yn ôl-weithredol ac mae'n berthnasol i dai annedd yn unig. Fel Erthygl 4(1) byddai hefyd yn cynnwys tai annedd mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd a mannau agored ac felly'n darparu rheolaeth dros gefn eiddo. Dylid cymhwyso Erthygl 4(1) i'r hawliau datblygu a ganiateir a ganlyn:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd (i gynnwys newidiadau i ffenestri, newidiadau i ddrysau, estyniadau, rendro, neu ail-rendro eiddo)
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ychwanegu to neu newid to
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth C: Newidiadau eraill i doeon
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi neu adeiladu porth
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth G: Newid, codi, rendro neu symud simneiau
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth C: Paentiad allanol adeiladau
- Atodlen 2 Rhan 11, Dosbarth C: Dymchwel waliau, ffensys neu reiliau terfyn

2.3.4 Sicrhau bod perchnogion, meddianwyr a swyddogion cynllunio yn ymwybodol o unrhyw Gyfarwyddyd Erthygl 4 newydd a'r cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir.

2.3.5 Ystyried cyflwyno cynllun grant addas pan fydd arian ac adnoddau ar gael.

2.3.6 Ymrwymo i gymryd camau gorfodi pan fydd angen.

DRAFT

# 3. ADOLYGIAD FFIN

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Lluniwyd llawer o ffiniau ardaloedd cadwraeth cynnar yn gaeth iawn ac nid oeddent bob amser yn cydnabod cyfraniad cyfnodau datblygu diweddarach i gymeriad lle na gwerth patrymau lleiniau hanesyddol, er enghraifft. Mae'n bwysig adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried lle gallai fod angen gwneud addasiadau. Mewn rhai achosion, mae ffiniau tir wedi newid, neu mae datblygiadau modern da wedi digwydd.

## 3.2 Ceinewydd

3.2.1 Nid yw ffin yr ardal gadwraeth yng Ngheinewydd wedi cael ei hymestyn ers iddi gael ei dynodi gyntaf yn 1969.

3.2.2 Ymddengys fod stent y ffin yn cyd-fynd i raddau helaeth â stent datblygiad y dref erbyn diwedd y 19eg ganrif ac mae'n cynnwys yr holl adeiladau rhestredig yng nghanol y dref. Mae'r rhannau o'r dref a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn, ond sydd wedi'u heithrio o'r ardal gadwraeth i'r de yn bennaf ac yn cynnwys: Heol y Parc; Lôn yr Ysgol; Stryd Bethel; Stryd Francis a Nant Ifan yn ogystal â'r datblygiad pellennig mwy gwasgaredig i'r gorllewin, Ffordd Towyn, ffermydd a chapeli ar y cyrion a'r ardal ger Llanllwchaearn.

DRAFT



*Ffigur 4 Nid yw Stryd Bethel yn arddangos unffurfiaeth yn ei chymeriad pensaernïol a allai gyfiawnhau ei chynnwys yn yr ardal gadwraeth*

3.2.3 Mae tri adeilad unigol nad ydynt o fewn y brif ardal gadwraeth hefyd wedi cael eu cynnwys o fewn y ffin wreiddiol: Eglwys Sant Llwchaiarn, Capel Towyn a Chapel Bethel.

3.2.4 Er eu bod yn debyg o ran golwg ar yr wyneb, nid yw Heol y Parc, Lôn yr Ysgol, Stryd Bethel, Stryd Francis a Nant Ifan yn arddangos unffurfiaeth cymeriad pensaernïol y terasau diwedd y cyfnod Fictoraidd yng nghanol y dref. Mae gan lawer o'r eiddo yn yr ardaloedd hyn ddylanwadau Edwardaidd neu ddiweddarach ac er bod gan rai eiddo unigol nodweddion cynharach o ansawdd da, nid yw cymeriad ac ansawdd cyffredinol yr ardaloedd hyn yn cyfiawnhau eu cynnwys yn yr ardal gadwraeth.

### 3.3 Argymhelliad

3.3.1 Argymhellir bod y ffin yn cael ei diwygio i eithrio'r tri adeilad unigol nad ydynt o fewn y brif ardal cadwraeth, sef Eglwys Sant Llwchaiarn, Capel Towyn a Chapel Bethel.

3.3.2 Mae'r adeiladau hyn yn hanesyddol bwysig a diddorol ynddynt eu hunain ac yn cael eu gwarchod oherwydd eu statws 'Rhestredig'. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol yr ardal oherwydd y pellter rhwng eu lleoliad a'r brif dref. Felly ni fyddai diwygio'r ffin yn lleihau'r gwarchodaeth sydd gan yr adeiladau hyn ond byddai'n cadarnhau cymeriad a golwg mwy cydlynol prif ardal canol y dref.

## 4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

### 4.1 CYFLWYNIAD

4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd statudol i gadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu ar geisiadau cynllunio yn agos gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.

4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

### 4.2 Ceinewydd

4.2.1 Nid oes Cynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Ceinewydd ar hyn o bryd.

DRAFT

4.2.2 Mae Cynllun Lle yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

4.2.3 Nid yw Ceinewydd yn cael ei hystyried yn un o chwe phrif dref Ceredigion ond yn hytrach mae wedi'i nodi yn y CDLl (Cynllun Datblygu Lleol) fel 'Canolfan Gwasanaethau Gwledig'. Gall felly golli allan ar y mentrau adfywio mwy.

4.2.4 Mae Ceinewydd ar Lwybr Arfordir Cymru ac mae Llwybr Dylan Thomas ar gael i'w grwydro yn y dref. Mae'n cael ei grybwyll yn gadarnhaol iawn o fewn marchnata ar gyfer arfordir Gorllewin Cymru / Bae Ceredigion. Mae gwybodaeth am ei hanes a'i datblygiad yn gyfyngedig.

4.2.5 Mae'r gymuned yn cynnal nifer o ddigwyddiadau bob blwyddyn ar amrywiaeth o bynciau a diddordebau.

4.2.6 Mae'r unig fap sydd ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Cyngor yn dangos Ardal Gadwraeth Ceinewydd wedi'i ymgorffori yn nogfennau'r CDLl. Nid oedd llawer o'r trigolion y siaradwyd â nhw yn ystod yr asesiad yn ymwybodol o statws cadwraeth y dref. Roedd mwy o ymwybyddiaeth o statws rhestredig eiddo.

DRAFT



***Ffigur 5 Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y dogfennau hyn a'r Cynllun Lle yn helpu i nodi materion pwysig ar gyfer y gymuned leol megis parcio***

### 4.3 ARGYMHELLION

4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

4.3.2 Cynhyrchu taflen ar Ardal Gadwraeth Ceinewydd ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal. Dylid sicrhau bod hwn ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.

4.3.3 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth Cymru, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio ffenestri a drysau hanesyddol, microgynhyrchu a'r canllawiau newydd ar inswleiddio waliau allanol.

4.3.4 Cynhyrchu canllawiau ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Gellid cynhyrchu hwn ar y cyd ag awdurdodau eraill neu adnoddau presennol megis Canolfan Tywi, Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru neu'r Gynghrair Adeiladau Traddodiadol. Dylai'r canllawiau gwmpasu:

- ***Cynnal a chadw:*** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.
- ***Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:*** Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.
- ***Arbed ynni ac ôl-ffitio mewn adeiladau hanesyddol:*** Dylai'r canllawiau gwmpasu: effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon; Beth yw ôl-osod a pham fod angen agwedd arbennig ar adeiladau hŷn?; Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

DRAFT




***Ffigur 6 Byddai canllawiau ar fesurau cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni yn helpu i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ac yn helpu i leihau unrhyw effeithiau negyddol***

DRAFT

4.3.5 Mae Ceinewydd yn boblogaidd iawn gyda thwristiaid, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau. Yn ystod y misoedd tawel a'r gaeaf mae nifer yr ymwelwyr yn lleihau'n fawr. Mae'n amlwg bod gan y gymuned leol archwaeth a diddordeb yn hanes y dref. Gellid harneisio'r diddordeb hwn i helpu i ddatblygu cynllun dehongli mwy cydlynol ar gyfer y dref. Ar y cyd â chynllun marchnata, cyfathrebu a digwyddiadau gallai hyn helpu i gynyddu twristiaeth yn ystod y misoedd tawelach a darparu buddion economaidd trwy gydol y flwyddyn.

4.3.6 Mae rhamant yr helyntion smyglo yn parhau ac mae'n atyniad twristiaeth poblogaidd, ond er bod arfordir gorllewinol Cymru yn ddrwg-enwog ni fu unrhyw fenter dwristiaeth gydlynol i archwilio'r thema hon. Roedd yn rhan annatod o hanes Ceinewydd ac yn un a anwybyddir i raddau helaeth.

4.4.7 Mae gan Geinewydd amrywiaeth dda, os cymedrol, o siopau annibynnol bach, mannau gwerthu bwyd a safleoedd busnes sy'n cyfrannu'n fawr at gymeriad ardal ganolog yr harbwr. Er bod diffyg blaenau siopau hanesyddol mae cyfleoedd i wella'r esthetig a phrofiad manwerthu heb effeithio ar amrywiaeth ac annibyniaeth yr unedau. Byddai adolygiad o'r seilwaith ffisegol presennol a datblygu cynllun rheoli ar gyfer safleoedd manwerthu yn helpu i atal annibendod a gosodiadau o ansawdd gwael a fydd yn y pen draw yn gwanhau'r cynnig cyffredinol. Byddai arwyddion o ansawdd uchel drwyddi draw, er enghraifft, yn gwella'r

esthetig heb gyfaddawdu ar yr amrywiaeth sy'n helpu i wneud Ceinewydd yn arbennig. Dylid annog safleoedd masnachol 'gweithredol' ond o ansawdd uchel, er enghraifft, mae hen dafarn y Dolau yn fusnes gosod ystafelloedd yn unig erbyn hyn ac er ei bod i'w weld yn eiddo sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mae diffyg gweithgarwch yn amlwg o'i gymharu â'i gymdogion ac yn gwneud iddo ymddangos ei bod ar gau neu'n wag. Mae angen gweithio gyda sefydliadau busnes lleol i ddosbarthu gwybodaeth, darparu hyfforddiant a cheisio cyllid i gynorthwyo i weithredu.

4.4.8 Dylai'r Cynllun Lle sydd ar y gweill ar y cyd â'r Cynllun Rheoli hwn helpu i ddarparu sylfaen strategol i seilio penderfyniadau cynllunio arni a sicrhau bod Ceinewydd yn cael ei hystyried mewn mentrau adfywio mwy.

## 5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o ased hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.

5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.

5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.

5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisïau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.

5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf

### 5.2 Ceinewydd

5.2.1 Mae gan Geinewydd ychydig o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig ac sydd heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.

5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:

DRAFT

- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
- Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
- Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
- Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nid ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli

## 5.3 Argymhelliad

5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.

5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.

5.3.4 Mae'r canlynol yn rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) fel y nodwyd yn yr arfarniad y gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys. Dylid nodi bod llawer o adeiladau eraill sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal ond nad ydynt efallai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys ar restr leol ar hyn y bryd.

- Adeiladau anrhestredig posibl o ddechrau'r 19eg ganrif: Lower Rock Terrace (i'r de o Rock Terrace), 1-5 Stryd yr Hen Goleg (Mason's Row neu Mason's Street gynt), Renown House ger Gerddi'r Ffynnon, yr eiddo ar ochr ogleddol Gerddi'r Ffynnon s(neu Stryd Dolau) gan gynnwys tafarn y Dolau, The Shell Shop a'r Pepper Pot.
- Adeiladau neu strwythurau hanesyddol wedi'u cynnwys ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.
- Yr hydrant dŵr hanesyddol ar gyffordd Rhes y Morwyr a Golygfor a'r pwmp ffynnon hanesyddol ar gyffordd Stryd y Cware, Golygfor a Maes yr Odyn (ddim yn y lleoliad gwreiddiol yn ôl pob tebyg).



***Ffigur 7 Dylid ystyried cynnwys nodweddion hanesyddol fel yr hydrant dŵr hwn ar 'restr leol'***

- Unrhyw derasau anrhestredig o'r 19eg ganrif sy'n cadw'r mwyafrif o'u nodweddion pensaernïol gwreiddiol, e.e. 19 Rhes y Morwyr, y tŷ ar gornel Rhodfa'r Wawr ar y gyffordd â Heol y Parc, y pedwerydd tŷ teras i'r gogledd o Gapel Tabernacl ar hyd Glanmor Place (enw anhysbys), ac eraill o bosibl.

## 6. YSTYRIED GORFODI

### 6.1 CYFLWYNIAD

6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.

6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLl am gyngor.

6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.

6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

### 6.2 Ceinewydd

6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Ceinewydd.

6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

6.2.3 Nodwyd bod llawer o nodweddion traddodiadol megis ffenestri a drysau wedi cael eu colli ar draws yr ardal gadwraeth, gan gynnwys ar eiddo rhestredig, ond mae rhai ffenestri, drysau, portshys, gwaith haearn a nodweddion pensaernïol eraill wedi goroesi. Ar hyn o bryd nid yw addasu neu ddisodli'r nodweddion hyn yn cael ei reoli ac eithrio ar Adeiladau Rhestredig.

### 6.3 ARGYMHELLIAD

6.3.1 Bydd yr arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn yn cael ei ddefnyddio fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.

6.3.2 Bydd y Cyngor yn ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

6.3.3 Bydd y Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.

DRAFT

6.3.4 Bydd arolwg ffotograffig dilynol yn cael ei gynnal yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

## 7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO A GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.

7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbrisio.



*Ffigur 8 Byddai gwella cyfraniad esthetig ac economaidd y lleiniau masnachu sy'n eiddo i'r Cyngor o fudd i'r gymuned leol a chymeriad a golwg yr ardal gadwraeth*

7.1.3 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cynghorau Tref a fforymau busnes.

7.1.4 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymerwyr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill. Gellid gwella'r lleiniau masnachu sy'n eiddo i'r Cyngor, gan roi ystyriaeth ofalus i ganiatáu unrhyw ddatblygiad pellach yn ardal y traeth neu'r llithrfa.

7.1.5 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

## 7.2 Ceinewydd

7.2.1 Nid yw Ceinewydd wedi elwa, fel y mae ardaloedd cadwraeth eraill, o'r cynlluniau adfywio trefi mwy. Fodd bynnag, mae Ceinewydd yn ffodus gan mai prin iawn yw'r adeiladau gwag yma ac mae galw mawr am safleoedd manwerthu.

7.2.2 Mae gan Geinewydd hanes unigryw a diddorol a chyfoeth o dreftadaeth adeiledig yn y dref a'r cyffiniau y gellir adeiladu arno. Byddai creu gwelliannau yn y parth cyhoeddus i adeiladau unigol a'r amgylchedd cyffredinol yn helpu i annog buddsoddiad, rhoi ymdeimlad o le a gwella'r rhagolygon ar gyfer cynyddu twristiaeth a defnydd lleol.

DRAFT




*Ffigur 9 Gellid gwneud gwelliannau syml i'r parth cyhoeddus trwy leoli a dylunio'r cyfleusterau angenrheidiol yn ofalus*

7.2.3 Mae Ceinewydd yn ffodus bod y tymor twristiaeth yn creu llawer o weithgarwch economaidd. Yr her i Geinewydd yw sicrhau bod hyn yn para trwy gydol y flwyddyn fel nad yw busnesau'n cau yn ystod y gaeaf nac yn ystod y misoedd tawelach.

7.2.4 Mae'r arfarniad wedi nodi rhai ardaloedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol, yn enwedig yn y parth cyhoeddus.

## 7.3 Argymhellion

7.3.1 Byddai symiau bach o arian adfywio yn mynd yn bell yng Ngheinewydd ond byddai angen eu cyfeirio'n strategol. Gellid ceisio cyllid adfywio thematig ar gyfer prosiectau unigol a fyddai'n cynnwys gwelliannau i nifer o drefi bach gydag ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, yn ogystal â cheisio cronfeydd unigol mwy sylweddol ar gyfer y trefi mwy. Gallai prosiectau gynnwys: gwelliannau manwerthu (o wahanol fathau) yng Ngheinewydd, Llandysul ac ardaloedd cadwraeth llai eraill; mynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol ymledol; neu wella ansawdd, dyluniad a lleoliad celfi stryd; neu ddatblygu Strategaethau Seilwaith Gwyrdd a/neu Strategaethau ar gyfer Coed.

7.3.2 Mae syniadau ar gyfer gwella'r parth cyhoeddus wedi'u nodi trwy'r arfarniad hwn a bydd yn sicr o gael sylw yn y Cynllun Lle sydd ar ddod. Ar hyn o bryd mae cymysgedd o arddulliau a deunyddiau yma, er y gellir ystyried bod llawer o'r rhain yn briodol. Mae angen cydlynu eitemau stryd o ansawdd uchel megis meinciau, bolardiau, biniau gwastraff, arwyddion priffyrdd, wynebau ffyrdd a phalmentydd ac ati.

7.3.3 Dylid rhoi sylw i'r ddarpariaeth o oleuadau stryd sy'n defnyddio unedau o ansawdd gwael ar adeiladau rhestredig a hanesyddol, yn enwedig ger y terasau gogleddol. Er bod y rhain yn atal yr annibendod posibl a ddaw trwy ddefnyddio polion lampau, gellid gwella'n fawr eu dyluniad a'u lleoliad.

7.3.4 Dylai'r Cyngor Sir weithio gydag ymgymerwyr statudol i fynd i'r afael â'r nifer fawr o wifrau uchel ar draws y strydoedd sy'n effeithio'n negyddol ar werthoedd a golygfeydd esthetig.

7.3.5 Rheolaeth gadarnhaol o newid i doeau a chefn eiddo trwy'r system gynllunio. Oherwydd topograffeg Ceinewydd mae'r ardaloedd hyn yn weladwy i'r cyhoedd ac yn effeithio ar gymeriad cyffredinol canol y dref.

7.3.6 Ystyried, trwy'r system gynllunio, effaith datblygiad newydd neu ehangu safleoedd presennol ar leoliad yr ardal gadwraeth.

DRAFT

7.3.7 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan berchnogion a defnyddwyr adeiladau yr offer angenrheidiol i wneud eu gwaith atgyweirio ac adnewyddu priodol eu hunain. Gall hyn gynnwys canllawiau, hyfforddiant a mentora.

7.3.8 Yn unol â Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aberystwyth, dylai'r Cyngor geisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu sefydliad hyfforddi Cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, neu'r tebyg. Gallai hyn hyfforddi pobl leol mewn technegau cadwraeth, creu swyddi sy'n darparu gwasanaethau cadwraeth lleol i berchnogion a meddianwyr yn y trefi a'r ardaloedd cyfagos. Gallai hyn ddarparu adnodd gwerthfawr a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi adfywio canol trefi ac ardaloedd cadwraeth Ceredigion, yn ogystal â darparu rhywfaint o gyflogaeth, uwchsgilio perchnogion a meddianwyr, a helpu i gadw a gwella pensaernïaeth hanesyddol y sir. Gellid defnyddio model tebyg i ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau Adfer Ban a Chwm Sir Gaerfyrddin.

7.3.9 Ar y cyd â'r gymuned, datblygu cynllun dehongli, marchnata, cyfathrebu a digwyddiadau a fydd yn helpu i annog pobl leol i ddefnyddio'r dref ac annog ymwelwyr i'r ardal yn y misoedd tawel.

7.3.10 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.

7.3.11 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel 'Streets for All' Historic England (https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/).

7.3.12 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebau, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, goleuadau a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd.

7.3.13 Gyda'r gymuned leol, sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella'r ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau ac arolygon bach, megis prosiect adeiladau rhestredig lleol neu fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol ymledol, cadw ardaloedd sydd wedi gordyfu yn daclus, neu ddatblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a/neu Strategaeth ar gyfer Coed. Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dod ag unrhyw faterion a all godi

DRAFT

yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.

7.3.14 Datblygu a gweithredu Cynllun Strategol i fynd i'r afael â materion parcio o fewn y dref mewn partneriaeth â'r Adran Briffyrdd, y Cyngor Tref, y gymuned leol a rhanddeiliaid perthnasol.



*Ffigur 10 Gall dewis gofalus o ddeunyddiau modern addas a dyluniad sensitif arafu traffig a chreu cyfeirbwyntiau i gerddwyr heb amharu ar gymeriad hanesyddol y lle*

DRAFT

## 8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

### 8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol. Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrddau o amgylch safleoedd datblygu.

8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath

mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.

## 8.2 Ceinewydd

8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth graidd masnachol bach. Mae'r ardal hon yn cynnwys nifer o safleoedd manwerthu a busnesau annibynnol bach. Dim ond ychydig o'r rhain sydd wedi'u lleoli o fewn adeiladau a godwyd yn wreiddiol i fod yn siopau ac nid oes blaenau siopau traddodiadol o fewn ardal canol y dref. Oherwydd hyn, mae rhai arwyddion siop yn wael o ran maint neu wedi'u gosod mewn lleoliadau amhriodol. Mae eraill o ansawdd da ac wedi'u hintegreiddio'n dda â phensaernïaeth yr adeilad.

## 8.3 Argymhellion

8.3.1 Nid oes angen blaenau siopau traddodiadol i sicrhau bod arwyddion wedi'u gosod a'u dylunio'n briodol, ac nid yw bob amser yn briodol eu cyflwyno i ardal lle na fu unrhyw flaenau siopau yn hanesyddol. Fodd bynnag, gallai rhai siopau elwa o gael blaen siop sydd wedi'i drefnu'n fwy ffurfiol a dylid ystyried lleoliad, dimensiynau a deunyddiau rhai o'r hysbysebion presennol.

8.3.2 Mae'r rheoliadau ynghylch hysbysebion yn gymhleth iawn a cheir llawer o gyfyngiadau na chaiff eu gorfodi'n ymarferol yn aml. Ni ystyrir bod angen ardal o reolaeth hysbysebu arbennig o fewn Ardal Gadwraeth Ceinewydd ar hyn o bryd. Yn hytrach, dylai'r arwyddion presennol gael eu hadolygu gan dimau gorfodi a dylai trafodaethau â pherchnogion a rheolwyr siop fod yn flaenoriaeth. Byddai cronfa gyllid fach yn cynorthwyo gyda'r trafodaethau pe bai modd ei sicrhau.

DRAFT




*Ffigur 11 Mae hysbysebu cystadleuol mewn ffurfiau gwahanol yn creu peryglon ar y palmentydd i gerddwyr ac annibendod*

8.3.3 Ystyried datblygu blaen siop a chanllawiau dylunio arwyddion yn benodol ar gyfer Ceinewydd. Gallai fod yn ddogfen syml a byr sy'n nodi manteision cael arwyddion o ansawdd uchel mewn mannau priodol i wella'r busnes a phensaernïaeth canol y dref.

## 9. ADEILADAU MEWN PERYGL

### 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw conglfaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

### 9.2 ADEILADAU GWAG YNG NGHEINEWYDD

9.2.1 Mae Ceinewydd yn ffodus mai dim ond ychydig iawn o adeiladau gwag sydd o fewn yr ardal gadwraeth. Mae nifer o adeiladau a oedd, ar adeg yr arolwg, wedi'u gorchuddio â sgaffaldiau ac i'w gweld yn cael eu hadnewyddu ar gyfer defnydd newydd. Yr adeilad gwag amlycaf yw'r hen Queen's Hotel ar ben Heol yr Eglwys. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II. Cafodd ei werthu mewn arwerthiant yn 2015 ac mae wedi bod yn wag ers hynny. Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio diweddar ar gyfer yr eiddo hwn.

DRAFT



*Ffigur 12 Mae'r hen Queen's Hotel yn Adeilad Rhestredig Gradd II ond yn mynd yn adfail*

## 9.3 Argymhellion

9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn. (gweler: https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-at-risk).

9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.

9.3.3 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol (gweler adran 7.3.8). Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis 'Stitch in Time' (IHBC a SPAB) i'r holl eiddo yn ardaloedd cadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.

# 10. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED

## 10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â mannau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

10.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a mannau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

## 10.2 Ceinewydd

10.2.1 Mae'r rhan fwyaf o'r gorchudd coed yng Ngheinewydd o fewn safle'r ardal gadwraeth neu mewn gerddi preifat.

10.2.2 Yn ogystal â'r tirlun gwledig, mae rhai mannau gwyrdd yn y dref, yn enwedig y parciau cyhoeddus ar hyd ymyl y clogwyn uwchben y traethau a'r harbwr.

DRAFT

10.2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau cymunedol a mannau agored wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal gadwraeth ac o ganlyniad canol y dref. Gall hyn gael yr effaith anfwriadol o ddenu pobl leol i ffwrdd o ganol y dref.

10.2.4 Mae'r traethau a'r harbwr yn fannau agored cyhoeddus allweddol.

10.2.5 Nid yw Ceinewydd wedi ei chynnwys yn Strategaeth Gwyrddu Trefi neu Asesiad Seilwaith Gwyrdd y Cyngor Sir.

10.2.6 Mae'r golygfeydd allweddol i mewn i'r ardal gadwraeth (o'r môr, y pier a Llanina) ac allan o'r ardal gadwraeth (o'r terasau a'r parciau cyhoeddus) wedi'u nodi trwy'r broses arfarnu.

10.2.7 Yn ogystal, mae golygfeydd byr i ganolig o fewn y dref yn gwella'r ymdeimlad o ddarganfod a dylid eu cynnal.




***Ffigur 13 Mae golygfeydd byr i ganolig o fewn y dref yn creu ymdeimlad o ddarganfod***

### 10.3 Argymhellion

10.3.1 Datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a / neu Strategaeth ar gyfer Coed Ceinewydd ac o bosibl ar gyfer ardaloedd cadwraeth bach eraill hefyd yng Ngheredigion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad seilwaith gwyrdd presennol. Gallai hyn fod ar ffurf prosiect cymunedol

gan ddefnyddio'r fethodoleg a'r argymhellion o'r gwaith presennol a'u cymhwyso i'r ardaloedd cadwraeth hyn.

10.3.2 Ystyried cynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau o goed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

10.3.3 Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl.

10.3.4 Dylid gwarchod y golygfeydd allweddol i mewn i'r ardal gadwraeth (o'r môr, y pier a Llanina), ac allan o'r ardal gadwraeth (o'r terasau a'r parciau cyhoeddus) ac o fewn yr ardal gadwraeth trwy'r system rheoli datblygu.

10.3.5 Ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau i'r mannau anodd eu cyrraedd ar y clogwyni uwchben y traethau.

## 11. MONITRO AC ADOLYGU

### 11.1 CYFLWYNIAD

11.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.

11.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.

11.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

11.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

### 11.2 CEINEWYDD

11.2.1 Ar hyn o bryd nid oes gan Cyngor Sir Ceredigion Gynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Ceinewydd.

11.2.2 Mae gan y Cyngor swyddog cynllunio sy'n gyfrifol am gadwraeth.

DRAFFT

### 11.3 Argymhellion

11.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

11.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

11.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

11.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

11.3.5 Dylai'r Cyngor barhau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng cynghorau lleol, adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.

DRAFT



*Ffigur 14 Mae golygfeydd o'r dref o'r pier a'r môr yn helpu i ddiffinio cymeriad a golwg Ceinewydd*

## ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau. | CSC – Treftadaeth a Pholisi | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn** |
| Dylid ymgynghori ymhellach ynghylch a ddylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Ceinewydd ac ystyried opsiynau eraill yn lle gwneud y Cyfarwyddyd. | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Uchel**<br>**0-1flwyddyn** |
| Diwygio ffin yr ardal gadwraeth i eithrio'r tri adeilad rhestredig unigol nad ydynt o fewn y brif ardal gadwraeth: Eglwys Sant Llwchaearn, Capel Towyn a Chapel Bethel. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol<br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Uchel**<br>**0-1 flwyddyn** |
| Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol | **Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus** |
| Ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (siarter gorfodi neu'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol<br>Y gymuned leol | **Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus** |
| Sicrhau bod cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill yn defnyddio egwyddorion dylunio ar sail treftadaeth i sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad unrhyw gynigion. Llunio briffiau dylunio ar gyfer unrhyw safleoedd datblygu a mewnlenwi posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth.<br>Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth. Ystyried adolygu CCA | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Rheoli Datblygu<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol | **Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus** |
| Datblygu cynllun strategol i fynd i'r afael â phroblemau parcio o fewn y dref mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref, y gymuned leol a rhanddeiliaid perthnasol. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Priffyrdd<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol | **Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus** |
| Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.<br>Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu<br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |

DRAFT

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION<br>(AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl a rheoli datblygu. Nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed, Gorchmynion Cadw Coed ac annog cyfranogiad yn y Cynllun Warden Coed. Datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a/neu Strategaeth ar gyfer Coed ar gyfer Ceinewydd ac o bosibl hefyd ar gyfer ardaloedd cadwraeth bach eraill yng Ngheredigion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad seilwaith gwyrdd presennol. Gallai hyn fod ar ffurf prosiect cymunedol (gweler 10.3). | CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt. | CSC | **Uchel – parhaus** |
| Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni. | CSC<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Ceinewydd. Sicrhau bod pob perchennog a deiliad yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau, yn enwedig os gwneir Cyfarwyddyd Erthygl 4 neu os yw 'Canllawiau'n' cael eu cyhoeddi. | CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi<br>Y gymuned leol | **Canolig**<br>**2-3 flwyddyn** |
| Adolygu'r seilwaith ffisegol presennol a datblygu cynllun rheoli ar gyfer safleoedd manwerthu, gan gynnwys dyluniad blaen siopau ac arwyddion, yn benodol ar gyfer Ceine- | CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu<br>Busnesau lleol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig'.<br>Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol. | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br>Cymunedau lleol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Ceisio cyllid ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau cynnal a chadw, atgyweirio, adfywio a hyfforddi (gweler 7.3) ar y cyd â'r isod o bosib. | CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio | **Canolig 2-3 blynedd ac yn barhaus** |
| Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. | CSC – Adfywio, Treftadaeth<br>Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ac ati | **Canolig 2-3 blynedd ac yn barhaus** |

DRAFT

| **GWEITHREDU / ARGYMHELLION** (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | **CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID** | **BLAENORIAETH** |
|---|---|---|
| Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach i wella'r ardal gadwraeth a hefyd rhoi sylwadau ar gynigion datblygu. Nodi safleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol. | CSC – Treftadaeth, Polisi<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd**<br>**Parhau** |
| Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth (e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, cynaliadwy-edd ac effeithlonrwydd ynni ac ati.) | CSC – Treftadaeth<br>Awdurdodau Lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeil-edig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Datblygu cynllun dehongli, marchnata, cyfathrebu a di-gwyddiadau a fyddai'n helpu i gynyddu twristiaeth a thynnu ar y digwyddiadau a'r cysylltiadau hanesyddol hynny sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y cynnig twristiaeth ar gyfer Ceinewydd. | CSC – Polisi, Adfywio<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol<br>Ymgynghorwyr? | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Datblygu a gweithredu cynllun strategol ar gyfer gwella parth cyhoeddus, lonydd cefn, strydoedd a llwybrau troed, goleuadau stryd a cheblau uchel. Gweithio gyda phartner-iaid perthnasol a cheisio cyllid, yn ôl yr angen, ar gyfer gwelliannau. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Pri-ffyrdd, Ymgymerwyr Statudol<br>Cynghorau Tref a Chymuned<br>Y gymuned leol | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Hyffordd-iant treftadaeth i Swyddogion Priffyrdd, yn ôl yr angen. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phriffyrdd<br>Llywodraeth Cymru? | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o lei-af. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cadw'r Cynllun Gweithredu yn gyfoes a chyhoeddi cynnydd. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r | CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghor-wyr | **Isel 5-10 mlynedd** |

DRAFT

## ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH

### *Deddfwriaeth a Chanllawiau*

Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20managment%20fo%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf

Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%20%20EN.pdf

Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: *Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio*

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023: https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/contents

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021): https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

### *Llyfryddiaeth*

Anon. (1895) *Guide to New Quay.* Welsh Press.

Burrow, J. (1967) *New Quay (Ceinewydd): Cardiganshire – the official town guide*.

Cadw. (1994) *New Quay: Buildings of Special Architectural Interest*.

Cyngor Sir Ceredigion. (2024) *Tystiolaeth Gefndir ar gyfer Cynlluniau Lle Ceredigion: Ceinewydd (Drafft)*

Edwards-Jones, C. (2013) *New Quay Wales Remembered*

Gardner, D. (1972) *Vagabond Book of Aberaeron and New Quay*

Jenkins, G.H. and Jones, I.E. (1998) *Cardiganshire County History – Cardiganshire in Modern Times – CYFROL 3*

Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales*

Lewis, W. J. (1987) *New Quay and Llanarth*

Siambr Fasnach Ceinewydd. (1998) *Croeso i Geinewydd*

Passmore, S. (1938) *The Streets of New Quay*

Wilson, J.M. (1872) *Imperial Gazetteer of England and Wales*


DRAFFT

### GWEFANNAU AC ADNODDAU RHYNGRWYD


https://archwilio.org.uk/

https://archifdy-ceredigion.org.uk/newquayharbourintro.php

https://www.archiuk.com/cgi-bin/archi_new_search_engine.pl?search_location=SA45%209NY&keyterms=local-history-archaeology&subject=metal-detecting-sites&country=united-kingdom&bot=googlebotsearch&pwd=&search_range=10000

https://archives.wales/

https://www.british-history.ac.uk/

https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records

https://www.cardigan-bay.com/new-quay-cardigan-bay/

https://ceredigionhistory.wales/new-quay/

https://coflein.gov.uk

https://datamap.gov.wales/

https://discovery.nationalarchives.gov.uk/

https://www.genuki.org.uk/big/wal/CGN/Llanllwchaearn/NewQuay2

https://www.google.com/maps/

https://historypoints.org/index.php?page=new-quay-lifeboat-station

https://www.newquay-westwales.co.uk/history.html

http://www.newquaywales.co.uk/then-and-now.html

https://www.peoplescollection.wales/

https://pint-of-history.wales/en/index.php

https://www.tivysideadvertiser.co.uk/news/23502978.looking-back-pictures-new-quay-years-gone/

https://www.walescoastpath.gov.uk/media/1500/new-quay-eng.pdf#:~:text=%E2%80%9CNew%20Quay%20is%20full%20of%20history%20and,go%20and%20collect%20fine%20wines%20and%20spirits.%E2%80%9D

DRAFFT